



Uned Atal Trais Violence Prevention Unit

Gwerthusiad o System Gwyliadwriaeth
a Dadansoddi Trais Cymru

Mawrth 2021

Gwerthusiad o System Gwyliadwriaeth a Dadansoddi Trais Cymru

Zara Quigg, Nadia Butler, Rebecca Harrison, Rebecca Bates, Hannah Timpson

Sefydliad Iechyd y Cyhoedd (PHI)¹

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Atal Trais

Prifysgol John Moores Lerpwl (JMU)

Exchange Station

Lerpwl, L2 2QP

E-bost: zaquigg@ljam.ac.uk

Mawrth 2021

Ynglŷn â'r Adroddiad hwn

De Cymru yw un o'r 18 o ardaloedd y dyrannwyd cyllid iddynt gan Lywodraeth y DU i sefydlu Uned Lleihau Trais. Gyda chefnogaeth ymrwymadau ychwanegol gan bartneriaid yng Nghymru, sefydlwyd Uned Atal Trais (VPU) Cymru yn 2019. Er mwyn llywio datblygiad parhaus VPU Cymru, ym mis Ionawr 2020 (a Medi 2020), comisiynwyd Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, JMU, i gefnogi datblygu fframwaith gwerthuso VPU Cymru, a gwerthuso'r Uned yn ei chyfanrwydd, a rhaglenni gwaith dethol. Mae'r adroddiad hwn yn un o gyfres o allbynnau rhaglen waith y gwerthusiad hwn, ac mae'n cyflwyno gwerthusiad o System Gwyliadwriaeth a Dadansoddi Trais Cymru yn benodol. Mae'r holl allbynnau gwerthuso ar gael ar wefan y VPU: <https://www.violencepreventionwales.co.uk/>

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r bobl a'r sefydliadau canlynol am gefnogi'r gwerthusiad hwn:

- Cyllidwyr y gwerthusiad, VPU Cymru.
- Aelodau o dîm VPU Cymru (yn enwedig Emma Barton, Annemarie Newbury, Bryony Parry, Lara Snowdon, Dan Jones, Gemma Woolfe a Jon Drake), a phartneriaid ehangach a gefnogodd y gwerthusiad.
- Holl bartneriaid y VPU a gymerodd ran yn yr arolwg a'r cyfweiliadau, a/neu a ddarparodd wybodaeth ychwanegol.

¹ <https://www.ljam.ac.uk/research/centres-and-institutes/public-health-institute>

Crynodeb

Ledled y Deyrnas Unedig (DU) a thu hwnt, mae trais yn cael ei gydnabod fwyfwy fel problem iechyd y cyhoedd o bwys y gellir ei hatal a lliniaru ei heffeithiau, drwy fabwysiadu dull yn seiliedig ar iechyd y cyhoedd. Mae'r dull hwn yn cydnabod y gall lluo o ffactorau sy'n aml yn gysylltiedig â'i gilydd ar lefelau unigol, perthynas, cymunedol a chymdeithasol gynyddu'r risgiau o drais ar draws poblogaethau, neu ddiogelu pobl rhag niwed. Elfen hanfodol o ddull iechyd y cyhoedd yw rhannu a defnyddio data amlasiantaeth i ddeall natur a graddau trais, a ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol, i lywio'r gwaith o ddatblygu a thargedu ymyriadau, ac i fonitro a gwerthuso gweithgaredd atal.

Wedi'i sefydlu yn 2014, gan ganolbwyntio ar Dde Cymru i ddechrau, nod System Gwyliadwriaeth a Dadansoddi Trais Cymru (WVSAS) yw cefnogi gwaith atal trais drwy ddatblygu system wylidwriaeth sy'n coladu, dadansoddi a rhannu data ar drais o sawl ffynhonnell ledled Cymru (gan gynnwys data yr heddlu, adrannau damweiniau ac achosion brys a'r gwasanaeth ambiwlans). Yr amcanion allweddol yw:

- Hyrwyddo dull iechyd y cyhoedd amlasiantaeth o atal trais, gan gynorthwyo partneriaid i ddeall maint a natur y broblem, y ffactorau risg a'r ffactorau amddiffynnol;
- Defnyddio data amlasiantaeth i dargedu ymyriadau yn seiliedig ar anghenion lleol;
- Defnyddio data amlasiantaeth i fonitro a gwerthuso effaith ymyriadau.

Yn 2019, ymgorfforwyd yr WVSAS yn rhaglen waith Uned Atal Trais (VPU) Cymru, gyda'r nod o ehangu'r system i gwmpasu Cymru gyfan. Er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r WVSAS ac Adroddiadau Monitro Trais diweddaraf y VPU, a chefnogi ei ehangu ledled Cymru (gan gynnwys drwy ddatblygu Hyb VPU; gweler Blwch i), comisiynodd y VPU werthusiad o'r system. Nod yr astudiaeth hon oedd gwerthuso datblygiad, gweithrediad ac effeithiau'r WVSAS. Amcanion allweddol y gwerthusiad yw:

- Deall a disgrifio pwrpas, datblygiad, elfennau a phriodoleddau'r WVSAS;
- Nodi gwerth y data sydd ar gael a'r dadansoddiadau a gynhyrchir drwy'r WVSAS o ran llywio gweithgaredd atal trais ledled Cymru, a chanlyniadau ac effeithiau defnyddio'r data;
- Ymchwilio i anghenion data partneriaid i lywio dull iechyd cyhoeddus o atal trais, meysydd posibl ar gyfer trawsnewid yr WVSAS, a rhwystrau a hwyluswyr.

Defnyddiodd y gwerthusiad ystod o ddulliau i gasglu tystiolaeth, gan gynnwys:



Arolwg (n=50) a chyfweiliadau (n=7) gyda phartneriaid y VPU sy'n derbyn gwybodaeth gan yr WVSAS yn ymchwilio i'w barn am yr WVSAS, ac a ydynt yn defnyddio'r WVSAS i atal trais ac, os felly, sut.



Adolygiad o ddogfennau (n=10) sy'n berthnasol i'r WVSAS ers ei sefydlu (2014), Adroddiadau Monitro'r VPU (n=17) a deunyddiau cyfathrebu'r VPU (e-bost/cylchlythyrau).

Trosolwg o ganfyddiadau allweddol y gwerthusiad

Dros yr ychydig ddegawdau diwethaf, mae Cymru wedi bod ar flaen y gad wrth ddatblygu dulliau amlasiantaeth o atal trais. Mae Model Caerdydd, model WVSAS gwreiddiol De Cymru, ac ymdrechion cenedlaethol a lleol i rannu data a chydweithio, gan gynnwys drwy VPU Cymru, yn darparu sylfaen gref ar gyfer system gwyliadwriaeth trais Cymru gyfan. Mae ymgorffori'r WVSAS yn rhaglen

Er mis Ebrill 2019, mae nifer y partneriaid sy'n cyfrannu data ar gyfer yr Adroddiadau Monitro Trais wedi cynyddu o bum gwasanaeth i 22.

waith y VPU yn galluogi parhau â blaenoriaethau partneriaid Cymru i gefnogi gwaith atal trais drwy ddatblygu system gwyliadwriaeth trais sy'n coladu, dadansoddi a rhannu data ar drais o sawl ffynhonnell ledled Cymru. Yn hollbwysig, mae dull y VPU yn datblygu y tu hwnt i fodelau sy'n bodoli eisoes, i ddarparu model Cymru Gyfan sy'n ceisio mynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais. Nodwyd bod y dull cydweithredol o rannu data unigoledig (sy'n galluogi cysylltu data) rhwng data'r heddlu a'r gwasanaeth iechyd yn Ne Cymru yn gwella dealltwriaeth o drais. Yn hollbwysig, mae'r gallu unigryw i gysylltu ffynonellau data'r heddlu ac iechyd wedi golygu bod modd adnabod digwyddiadau treisgar ar draws gwasanaethau, ac adnabod niwed cudd yn well (sydd wedi newid proffiliau trais hysbys presennol), gan ganiatáu i wasanaethau ddatblygu a thargedu gweithgareddau atal yn fwy manwl gywir. Fodd bynnag, mae angen gwaith partneriaeth amlasiantaeth parhaus, ar lefelau cenedlaethol a lleol, er mwyn sicrhau y gellir ehangu'r system yn llawn ledled Cymru, creu darlun mwy cyfannol, a'i hymgorffori ar draws y system gyfan, gan ddilyn dull yn seiliedig ar le.

Blwch i: Trosolwg o'r WVSAS, Adroddiadau Monitro Trais a'r Hyb VIP

System Gwyliadwriaeth a Dadansoddi Trais Cymru (WVSAS): Y system sy'n coladu, yn cysylltu ac yn dadansoddi data ar drais o ffynonellau data'r heddlu a'r gwasanaeth iechyd (ac yn fwy diweddar mae'n cynnwys data agrededig o ffynonellau data eraill).

Adroddiadau Monitro Trais: Adroddiadau a gynhyrchwyd gan y VPU ers mis Ebrill 2020 fel rhan o ymateb y VPU i COVID-19. Mae'r adroddiadau'n cynnwys data o'r WVSAS, a ffynonellau data eraill a ddarperir i'r VPU i gefnogi'r adroddiadau hyn a'r WVSAS.

Hyb Data Atal Trais (Hyb VIP): Hyb data pwrpasol a fydd yn storfa ar gyfer data amlasiantaeth, gan ddarparu platfform digidol i ganiatáu agregu a chyflwyno gwahanol ffynonellau data ar drais gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau ar draws ardaloedd lleol a'r ôl troed cenedlaethol.

Mae'r VPU wedi dechrau ehangu model yr WVSAS i Gymru Gyfan, gan gynnwys data'r heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans sy'n cwmpasu Cymru gyfan, a data'r trydydd sector, ymhlith ffynonellau gwybodaeth eraill. Mae

Roedd 90% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cytuno bod y VPU yn hwyluso rhannu data amlasiantaeth at ddibenion atal trais ledled Cymru.

datblygu a chynhyrchu'r Adroddiadau Monitro Trais wedi rhoi cyfle i bartneriaid rannu eu data drwy'r system, ac wedi codi ymwybyddiaeth o'r ffynonellau data sydd ar gael, a sut y gall ffynonellau data o'r fath ddatblygu dealltwriaeth o drais ymhellach a llywio gweithgaredd atal. Nodwyd bod sicrhau bod data'n cynrychioli Cymru gyfan, ac o ansawdd uchel, yn hanfodol i wella'r gwaith o atal trais. Ar hyn o bryd mae cynnwys data o'r holl fyrddau iechyd a ffynonellau data eraill sy'n canolbwyntio ar risgiau a ffactorau amddiffynnol yn cael eu harchwilio i'w cynnwys yn yr Hyb Data Atal Trais (VIP). Nod datblygu'r Hyb VIP yw ymgorffori'r WVSAS ledled Cymru, gan helpu i oresgyn rhwystrau i rannu data,

Nododd mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg a oedd wedi darllen Adroddiad Monitro Trais (n=42) eu bod yn ddefnyddiol er mwyn:

- Deall natur trais/y math o drais (97.6%);
- Mesur maint y trais (gan gynnwys tueddiadau) (92.9%);
- Nodi a disgrifio'r poblogaethau sydd fwyaf mewn perygl o ddioddef trais (83.3%);
- Nodi a disgrifio'r ardaloedd (e.e. trefi) sydd fwyaf mewn perygl o ddioddef trais (73.8%);
- Nodi a disgrifio'r ffactorau risg (a'r ffactorau amddiffynnol) ar gyfer trais (81.1%);
- Cynorthwyo gydag ymchwil a dadansoddi (81.0%);
- Eu cyfuno â data eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau (66.7%).

gwella mynediad partneriaid at ddata amlasiantaeth i ddiwallu eu hanghenion lleol, a pharhau i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar drais.

Mae'r gwerthusiad hwn yn dangos sut mae allbynnau WVSAS, gan gynnwys Adroddiadau Monitro Trais y VPU, yn hyrwyddo dull iechyd y cyhoedd amlasiantaeth o atal trais, gan gynorthwyo partneriaid i ddeall maint a natur y broblem, ynghyd â ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol. Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Chwefror 2021, cynhyrwyd 17 o Adroddiadau Monitro Trais, a ddosbarthwyd drwy e-bost i restr gynyddol o randdeiliaid, sef 463 ledled Cymru a thu hwnt (e.e. Lloegr) ar hyn o bryd.

Mae'r Adroddiadau Monitro Trais wedi cael eu croesawu gan bartneriaid y VPU ac fe'u defnyddiwyd i lywio dulliau strategol o atal trais, ac maent yn darparu dealltwriaeth fwy cywir o drais ledled Cymru. Yn hollbwysig, mae'r adroddiadau wedi helpu i adnabod grwpiau cudd sydd mewn perygl o ddioddef trais, gan gynorthwyo partneriaid y VPU i ddatblygu a thargedu ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth. At hynny, maent wedi sicrhau bod atal trais yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol drwy gydol y pandemig COVID-19.

"Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys cydbwysedd da o ddata a naratif, a chaiff hyn ei ddadansoddi'n dda iawn."

Defnyddiwyd yr Adroddiadau Monitro Trais i lywio ymatebion strategol a gweithgareddau atal trais gan gynnwys:

Cefnogi ymatebion strategol a gweithredol e.e. Hyrwyddo (drwy Dîm Atal Trais y VPU) 'GOFYN a GWEITHREDU' ymhlith staff adrannau damweiniau ac achosion brys i gynyddu datgeliadau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (a weithredwyd oherwydd lefelau isel o achosion o gam-drin domestig a adroddwyd gan yr heddlu a chynnydd yn y galw am linellau cymorth). Mae hyn wedi arwain at gynydd yn nifer y datgeliadau mewn adrannau damweiniau ac achosion brys.

Llywio datblygiad, ffocws a dulliau o dargedu ymgyrchoedd cyfathrebu e.e. trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig ac ymgyrchoedd trais rhywiol fel 'Ddylai neb fod yn ofnus gartre', a'r ymgyrch troseddau cyllyll (radio/cyfyngau cymdeithasol), hyrwyddo cefnogaeth i blant a phobl ifanc.

Datblygu blaenoriaethau ymchwil a llywio gwaith ymchwil cenedlaethol e.e. Asesiad o Anghenion Iechyd yn sgil effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc sy'n profi trais a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Fodd bynnag, mae angen datblygu allbynnau'r WVSAS ymhellach er mwyn sicrhau y gall lywio gweithgaredd atal mewn cymunedau lleol, a diwallu anghenion amrywiol partneriaid y VPU. Mae dangos tystiolaeth o'r defnydd o'r WVSAS a'i heffaith yn hanfodol i ddatblygiad a chynaliadwyedd y system yn y dyfodol. Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw bob amser yn glir pwy sy'n cael mynediad at allbynnau WVSAS, neu a ydynt yn defnyddio'r data/allbynnau a sut y maent yn gwneud hynny.

Roedd mwyafrif ymatebwyr i'r arolwg yn cefnogi datblygiad (97.5%) a pharhad (97.4%) yr Adroddiadau Monitro Trais.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i lwyddiant yr WVSAS yn y dyfodol, ac mae'r VPU yn darparu llwyfan i barhau i wella defnyddioldeb y system gwyliadwriaeth trais mewn gweithgaredd atal ledled Cymru. Mae'r Adroddiadau Monitro Trais a gwaith ehangach y VPU wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o sefydliadau sy'n gweithio tuag at atal trais ledled Cymru, a'r rôl hanfodol sydd ganddynt mewn gwaith gwyliadwriaeth trais. Mae gan bartneriaid y VPU, yn enwedig ar lefel

ranbarthol a lleol, rôl hanfodol yn y broses o sicrhau bod y system yn gallu diwallu anghenion y gymuned a'i bod yn gallu cael ei defnyddio i lywio camau gweithredu lleol a bod hynny'n digwydd. Mae meithrin gallu dadansoddol ar lefelau rhanbarthol a lleol yn hanfodol i ehangu'r system ledled Cymru.

Argymhellion ar gyfer trawsnewid

- Dylai datblygu'r WVSAS barhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r VPU a'i phartneriaid, gan gynnwys ehangu i system Cymru gyfan gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar le ac wedi'i arwain gan le.
- Adnabod sut mae nodau ac amcanion yr WVSAS yn cyd-fynd â blaenoriaethau llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, a sefydliadau partner a chodi ymwybyddiaeth o hynny er mwyn ennyn cefnogaeth i system Cymru Gyfan.
- Gwella datblygiad system gwyliadwriaeth trais Cymru gyfan drwy gamau gweithredu cydgysylltiedig a ddarperir drwy'r Rhaglen Diogelwch Cymunedol Genedlaethol.
- Rhoi blaenoriaeth i gynnwys data byrddau iechyd sy'n cwmpasu Cymru gyfan yn yr Hyb VIP.
- Parhau i gysylltu â phartneriaid VPU ledled Cymru i nodi ffynonellau data a allai wella gwyliadwriaeth trais, gan gynnwys deall ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol, a sefydlu prosesau rhannu data (gan gynnwys yn yr Hyb VIP a phrosesau rhannu data lleol eraill).
- Cysylltu ffynonellau/dangosyddion data â model rhesymeg y VPU (canlyniadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor).
- Adolygu ansawdd data yn rheolaidd ar draws darparwyr data, a gweithio gyda phartneriaid i wella prosesau casglu data gan sicrhau y gall gwybodaeth gefnogi atal trais ar draws y system gyfan. Gall hyn gynnwys casglu data y tu hwnt i ofynion sefydliadol i adnabod grwpiau sydd mewn perygl neu i gynorthwyo dealltwriaeth o gyd-destun trais.
- Ehangu prosiect cysylltu/cipio-ailgipio data 2014 a weithredwyd ledled De Cymru (sy'n cysylltu ffynonellau data'r heddlu, adrannau damweiniau ac achosion brys a'r gwasanaeth ambiwlans) i gwmpasu Cymru gyfan (gan alluogi gwell dealltwriaeth o raddau a natur trais, a grwpiau a chymunedau sydd mewn perygl).
- Parhau i ddatblygu'r Hyb VIP i gefnogi partneriaid VPU i gael mynediad at ddata amlasiantaeth a'u harchwilio yn seiliedig ar eu hanghenion lleol.
- Sicrhau bod dadansoddiadau data yn cael eu cyflwyno ar lefelau cenedlaethol a lleol (e.e. rhanbarthol, Partneriaeth Diogelwch Cymunedau), fel y gall data fod yn sail i ddulliau cymunedol lleol o atal trais.
- Ehangu allbynnau WVSAS i lywio strategaethau a gweithgareddau atal cenedlaethol a lleol, er enghraifft, drwy gynhyrchu adroddiadau thema ar faterion sy'n dod i'r amlwg. Sicrhau bod allbynnau'n cynnwys crynodeb o'r canfyddiadau a'r argymhellion allweddol ar gyfer gweithredu, ar lefelau lleol a chenedlaethol.
- Parhau i godi ymwybyddiaeth o sut y gall yr WVSAS gefnogi gweithgaredd atal trais ledled Cymru.
- Codi ymwybyddiaeth o rôl holl bartneriaid VPU wrth gynnal a datblygu'r system, drwy gyfrannu data, gwella ansawdd data a sicrhau'r defnydd o ddata mewn gweithgaredd atal trais lleol a chenedlaethol, a rhannu'r hyn a ddysgwyd am ddefnyddio data a'u heffeithiau.
- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod gan ardaloedd lleol (e.e. rhanbarthol, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol) a sefydliadau hyrwyddwr dynodedig a/neu grŵp atal trais a all gefnogi nod ac amcanion yr WVSAS (a chylch gwaith ehangach y VPU).
- Eiriol dros gryfhau capasiti rhanbarthol a lleol i alluogi dadansoddi a dehongli data yn lleol, a gweithgaredd atal trais yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Ystyried datblygu strategaeth er mwyn datblygu'r WVSAS yn y dyfodol sy'n cynnwys dull haenog o gyflawni, a fydd yn cynnwys:
 - Tîm craidd y VPU, e.e. datblygu a chynnal a chadw'r Hyb VIP a draws y system gyfan; adroddiadau ar themâu penodol; a gwaith monitro a chadw gwyliadwriaeth ar drais ledled Cymru.
 - Grwpiau atal trais lleol e.e. ehangu dull sy'n cael ei arwain gan le ac yn seiliedig ar le; dadansoddi data a chraffu ar ddata i lywio ac ysgogi strategaethau lleol a gweithgaredd atal; a chefnogi gwelliannau yn ansawdd y data, a sut y cânt eu rhannu a'u defnyddio.
- Adolygu'r broses o ledaenu allbwn yn rheolaidd, gan sicrhau bod partneriaid yn gallu cael mynediad at yr allbynnau/data a datblygu dealltwriaeth o'r defnydd o'r allbynnau i atal trais.
- Ehangu model gweithredu'r WVSAS i gynnwys adolygiad o ansawdd a defnydd data wrth atal trais, a rhannu gwybodaeth o'r fath rhwng partneriaid, gan gynnwys partneriaid lleol yn rhannu enghreifftiau o'u defnydd o ddata mewn gweithgaredd atal yn rheolaidd.
- Parhau i fonitro a gwerthuso prosesau datblygu'r WVSAS ledled Cymru, a chanlyniadau ac effeithiau'r system.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
1.1 Dull iechyd y cyhoedd o atal trais	1
1.2 Rhannu data amlasiantaeth er mwyn atal trais	1
1.3 System Gwyliadwriaeth a Dadansoddi Trais Cymru (WVSAS)	6
1.4 Rhesymeg, dull gweithredu a dulliau'r gwerthusiad	6
1.5 Cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad	6
2. Pwrpas a Gweithrediad yr WVSAS	8
2.1 Nod ac amcanion	8
2.2 Poblogaeth darged a diffiniad o achos	9
2.3 Yr adnoddau a ddefnyddir i weithredu'r system	10
3. Priodoleddau'r WVSAS	11
3.1 Symrlrwydd	11
3.2 Hyblygrwydd	13
3.3 Derbynioldeb	14
3.4 Ansawdd ac amseroldeb y data	17
3.5 Cynrychiolaeth a sensitifrwydd	18
3.6 Sefydlogrwydd a diogelwch	19
4. Defnyddioldeb yr WVSAS	21
4.1 Gwellu'r ddealltwriaeth o drais a'r galw am wasanaethau	21
4.2 Hyrwyddo atal trais a dull iechyd y cyhoedd	22
4.3 Llywio ymatebion strategol a gweithgareddau atal trais	23
4.4 Monitro a gwerthuso dulliau a gweithgareddau atal trais	25
4.5 Canlyniadau ac effeithiau ehangach	26
5. Trawsnewid yr WVSAS i Gefnogi Gwaith Atal Trais yng Nghymru	27
5.1 Hwyluswyr allweddol	27
5.2 Meysydd i ehangu arnynt	28
6. Casgliad ac Argymhellion ar gyfer Trawsnewid	36
7. Cyfeiriadau	40
8. Atodiadau	43
8.1 Dulliau gwerthuso	43
8.2 Trosolwg o ffynonellau data'r WVSAS	44


1. Cyflwyniad

1.1 Dull iechyd y cyhoedd o atal trais

Ledled y Deyrnas Unedig (DU) a thu hwnt, mae trais yn cael ei gydnabod fwyfwy fel mater iechyd cyhoeddus o bwys y gellir ei atal a lliniaru ei effeithiau, drwy fabwysiadu dull yn seiliedig ar iechyd y cyhoedd (y Swyddfa Gartref, 2018, 2019; Krug et al, 2002; WHO, 2014). Mae'r dull hwn yn cydnabod y gall lluo o ffactorau sy'n aml yn gysylltiedig â'i gilydd ar lefelau unigol, perthynas, cymunedol a chymdeithasol gynyddu'r risgiau o drais ar draws poblogaethau, neu ddiogelu pobl rhag niwed. Wedi'i hyrwyddo gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), mae'r dull cymdeithasol-ecolegol hwn yn cynnwys pedwar cam allweddol fel fframwaith ar gyfer atal trais (Ffigur 1; Krug et al, 2002):

1. Deall maint a natur y problem drwy ymchwil a chasglu data yn systematig.
2. Nodi ffactorau sy'n cynyddu neu'n lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â thrais.
3. Datblygu a gwerthuso ymyriadau i fynd i'r afael â'r risgiau a hyrwyddo ffactorau amddiffynnol.
4. Ehangu ymyriadau effeithiol a gwerthuso eu heffaith a'u cost-effeithiolrwydd, a rhannu arfer gorau.

Ffigur 1: Dull iechyd y cyhoedd o atal trais



Mae'r dull iechyd y cyhoedd yn gofyn am gylich parhaus o bartneriaethau amlasiantaeth sy'n asesu, yn deall ac yn ymateb i drais o fewn poblogaeth, gan sicrhau bod dulliau atal yn ymateb i anghenion cymunedol, ac wedi'u cynllunio a'u darparu gyda chymunedau ac ar eu cyfer.

Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Strategaeth Trais Difrifol, gan annog dull iechyd y cyhoedd amlasiantaeth, system gyfan o atal trais (Y Swyddfa Gartref, 2018). Er mwyn cefnogi ardaloedd lleol i fabwysiadu'r dull hwn, rhoddwyd amrywiol fesurau ar waith, gan gynnwys darparu cyllid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau (CHTh) mewn 18 o ardaloedd i sefydlu uned lleihau trais (VRU) amlasiantaeth gan ddod â'r heddlu, llywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd, iechyd y cyhoedd, arweinwyr cymunedol a rhanddeiliaid allweddol eraill ynghyd. Mae De Cymru yn un o'r 18 o ardaloedd y dyrannwyd cyllid iddi i sefydlu VRU. Gyda chefnogaeth ymrwymadau ychwanegol gan bartneriaid yng Nghymru, sefydlwyd Uned Atal Trais (VPU) Cymru yn 2019. Nod VPU Cymru yw atal pob math o drais ledled Cymru drwy weithredu dull iechyd y cyhoedd, adnabod achosion sylfaenol trais a darparu dull cydgysylltiedig o atal trais yn seiliedig ar dystiolaeth. Gan adeiladu ar hanes o weithio mewn partneriaeth, mae'r VPU yn cynnwys partneriaid allweddol sy'n cynrychioli'r heddlu, y gwasanaeth iechyd, y gwasanaeth carchardai a phrawf, cyfiawnder ieuenctid, awdurdodau lleol, iechyd y cyhoedd, a'r sector cymunedol a gwirfoddol. Mae model gweithredu'r VPU yn seiliedig ar fframwaith system gyfan ar gyfer atal, sy'n canolbwyntio ar bedwar maes allweddol, 'Ymwybodol, Eiriol, Cynorthwyo a Mabwysiadu' i sicrhau dull cynhwysfawr o ddarparu ymyriadau (Ffigur 2).


1.2 Rhannu data amlasiantaeth er mwyn atal trais

Elfen hanfodol o ddull iechyd y cyhoedd yw rhannu a defnyddio data amlasiantaeth i ddeall natur a graddau trais, ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol, i lywio datblygiad a dulliau o dargedu

ymyriadau, ac i fonitro a gwerthuso gweithgaredd atal. Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae gwahanol wledydd, yn aml ar lefel leol neu ranbarthol, wedi gwneud datblygiadau sylweddol o ran cael mynediad at ddata amlasiantaeth i atal trais (Ahmed et al, 2020; Droste et al, 2014; Florence et al, 2011, 2014; Mercer Kollar et al, 2019; Quigg et al, 2012, 2016, 2017). Fodd bynnag, i lawer o gymunedau, mae'r defnydd o ddata amlasiantaeth i atal trais yn dal yn ei fabandod, ac felly yn aml nid yw gwir faich trais yn cael ei ddeall yn llawn. Yng Nghynllun Gweithredu Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), a gyhoeddwyd yn 2016, gosodwyd amcan strategol i Aelod-wladwriaethau ddefnyddio gwybodaeth iechyd i wella gwyliadwriaeth ar drais (WHO, 2016).

I lawer o wledydd, mae data ar drais yn deillio amlaf o ddata troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu. Er y gall hyn ddarparu gwybodaeth hanfodol i atal trais, mae astudiaethau amrywiol yn dangos nad yw cyfran fawr o ddigwyddiadau treisgar yn cael eu hadrodd i'r heddlu (Faergemann et al, 2007; Gray et al, 2017; Quigg et al, 2012). Yn 2018/19, mae data o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn awgrymu mai dim ond 38% o ddigwyddiadau treisgar (1.2 miliwn) ymhlith oedolion (16+ oed) a adroddwyd i'r heddlu (Elkin, 2019). Fodd bynnag, mae llawer o ddigwyddiadau o drais yn arwain at anaf (47% o ddigwyddiadau ymhlith oedolion yng Nghymru a Lloegr, 2017/18 [Elkin, 2019]) ac felly gall dioddefwyr ddefnyddio gwasanaethau iechyd i drin anafiadau, ac fe'u cofnodir wedi hynny yn setiau data'r gwasanaeth iechyd. Felly, mae data iechyd, gan gynnwys derbyniadau i'r ysbyty, derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys, a galwadau am ambiwlans, yn ffynhonnell wybodaeth bwysig i gynorthwyo dealltwriaeth o drais ar lefel leol, a lle maent ar gael, ar lefel genedlaethol (Droste et al, 2014; Taylor et al, 2015; WHO, 2016). Er enghraifft, gellir defnyddio data iechyd i asesu tueddiadau trais (Sivarajasingam et al, 2016), a nodi mannau lle ceir problemau (e.e. strydoedd neu adeiladau trwyddedig) a/neu grwpiau a chymunedau sydd mewn perygl, gan lywio datblygiad ymyriadau a thargedau adnoddau (Ariel et al, 2013; Bellis et al, 2012; Bengner a Carter, 2008; Forgan, 2014; Florence et al, 2011; Sutherland et al, 2002). Mae adolygiad llenyddiaeth systematig o rannu data adrannau damweiniau ac achosion brys i leihau trais sy'n gysylltiedig ag alcohol yn awgrymu y gellir gweithredu

Ffigur 2: Strwythur gweithredol VPU Cymru



systemau rhannu data o'r fath yn gymharol hawdd, a gallai helpu i gefnogi gostyngiadau mewn trais ar lefel gymunedol (Droste et al, 2014). Mae gwerthusiad o'r dull hwn yng Nghaerdydd (h.y. Model Caerdydd; gweler Blwch 1) yn awgrymu ei fod yn gysylltiedig â gostyngiadau mewn derbyniadau i'r

ysbyty ar gyfer trais, ac yn arbed costau i wasanaethau iechyd a chyfiawnder troseddol (Florence et al, 2011; 2014).

Er mwyn galluogi gwell dealltwriaeth o drais, er 2008 mae Llywodraeth y DU wedi hyrwyddo rhannu a defnyddio data ar dderbyniadau adrannau damweiniau ac achosion brys, drwy amrywiol strategaethau a rhaglenni gwaith (Llywodraeth EM, 2010; Y Swyddfa Gartref, 2018; Quigg et al, 2016; Teff, 2012). Yn 2010, yn dilyn argymhellion ar gyfer casglu a rhannu data ar ymosodiadau gan y Coleg Meddygaeth Frys (yn seiliedig ar Fodel Caerdydd; Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys, 2017), addawodd y Llywodraeth y byddai'n *gorfodi ysbytai i rannu gwybodaeth nad yw'n gyfrinachol gyda'r heddlu fel eu bod yn gwybod lle mae troseddau gynau a chyllyll yn digwydd ac yn gallu targedu gweithgaredd stopio a chwilio mewn ardaloedd lle mae troseddau gynau a chyllyll yn broblem* (Llywodraeth EM, 2010, tud.13). Yn 2014, sefydlwyd y rhaglen Rhannu Gwybodaeth i Fynd i'r Afael â Thrais (ISTV) i alluogi casglu a rhannu data yn gyson ac yn systematig ar draws adrannau damweiniau ac achosion brys yn Lloegr (Teff, 2012). Roedd y rhaglen yn gorfodi pob adran damweiniau ac achosion brys Math 1² i gasglu data allweddol gan gleifion sy'n mynd yno oherwydd ymosodiad, gan gynnwys: amser a dyddiad yr ymosodiad; amser a dyddiad eu derbyn i'r adran damweiniau ac achosion brys; lleoliad penodol yr ymosodiad (testun rhydd, e.e. enw'r stryd); a'r prif ddull ymosod (h.y. yr arf neu'r rhan o'r corff a ddefnyddiwyd).

Ystyriwyd bod Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Lleol yn gyfrifol am brosesu, dadansoddi a rhannu data'r rhaglen ISTV gyda phartneriaid perthnasol, er bod rhai ardaloedd wedi rhoi trefniadau eraill ar waith i ategu'r systemau rhannu data amlasiantaeth lleol presennol (e.e. TIIG/WMISS, gweler Blwch 1). Er bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud ledled Lloegr (a Chymru) o ran ISTV, mae problemau gyda chasglu, rhannu a defnyddio data o ansawdd uchel ar drais yn parhau ar draws sawl maes (Ahmed et al, 2020; Barton et al, 2016; SCLGCPDAC, 2015). Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd wedi gwella systemau rhannu data adrannau damweiniau ac achosion brys y tu hwnt i set ddata ISTV, gan rannu eitemau data damweiniau ac achosion brys presennol (neu ychwanegol) i gynorthwyo dealltwriaeth o drais, gan gynnwys er enghraifft rhannu demograffeg cleifion (e.e. oedran, rhyw, ardal breswyl). Mae systemau o'r fath yn dangos defnydd ehangach o ddata iechyd i atal trais (y tu hwnt i Fodel ISTV/Caerdydd), drwy adnabod grwpiau sydd mewn perygl a tharged ymyriadau tuag at y rhai mwyaf anghenus.

Mae cyfuno a thriongli data adrannau damweiniau ac achosion brys â ffynonellau data gwasanaethau brys eraill yn cael ei gydnabod fwyfwy fel rhywbeth hanfodol i helpu i lywio mentrau atal trais (Droste et al, 2014), yn bennaf oherwydd efallai na fydd data ar drais o un ffynhonnell yn unig yn cynrychioli natur a maint y trais yn gywir, yn enwedig ymhlith grwpiau a chymunedau sydd mewn perygl (Gray et al, 2017). Yn nodweddiadol, rhennir data dienw ar draws partneriaethau, gyda data yn cael ei droshaenu a'i driongli i gael gwell dealltwriaeth o drais. Fodd bynnag, ceisiodd astudiaeth ar draws De Cymru gysylltu ffynonellau data iechyd (derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys a galwadau ambiwlans) a chyfiawnder troseddol (troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu), er mwyn galluogi dealltwriaeth gywirach o drais, ac asesu gwerth pob ffynhonnell ddata. Canfu'r astudiaeth na chofnodwyd 59% o dderbyniadau mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yn sgil ymosodiadau yn set ddata'r heddlu (Gray et al, 2017). Yn hollbwysig, roedd digwyddiadau o drais ymhlith grwpiau allweddol, fel dynion ifanc, yn fwy tebygol o beidio â chael eu hadrodd i'r heddlu, ynghyd â

² Gwasanaeth 24 awr dan arweiniad ymgynghorydd gyda chyfleusterau dadebru llawn a llety dynodedig ar gyfer derbyn cleifion adran damweiniau ac achosion brys yw adrannau damweiniau ac achosion brys Math 1. Roedd gweithredu'r set ddata ISTV yn ddewisol ar gyfer pob math arall o adrannau damweiniau ac achosion brys.

digwyddiadau rhwng dieithriaid mewn lleoliadau cyhoeddus (e.e. strydoedd neu adeiladau trwyddedig). At hynny, roedd cysylltu setiau data yn galluogi adnabod mathau anhysbys o drais, sy'n aml yn guddiedig, megis cam-drin domestig a cham-drin yr henoed (Gray et al, 2017).

Blwch 1: Enghreifftiau o Systemau Gwyliadwriaeth Trais ledled Cymru a Lloegr

Model Caerdydd (Caerdydd, Cymru): Mae Model Caerdydd yn cynnwys dull amlasiantaeth (e.e. heddlu, y gwasanaeth iechyd a diogelwch cymunedol) o atal trais gan ddefnyddio data'r gwasanaeth iechyd a'r heddlu i lywio mentrau plismona ac atal trais cymunedol. Mae'r model, hwn, sydd ar waith er 1999, yn golygu bod staff adrannau damweiniau ac achosion brys yn casglu gwybodaeth fanwl gan gleifion am amgylchiadau'r ymosodiad (e.e. lleoliad yr ymosodiad, amser a dyddiad, a'r dull ymosod [e.e. arf]), gyda data dienw yn cael ei rannu'n rheolaidd â grwpiau amlasiantaethol lleol er mwyn atal trais. Mae gwerthusiad o Fodel Caerdydd yn awgrymu ei fod yn gysylltiedig â gostyngiadau mewn derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer trais, ac arbed costau i wasanaethau iechyd a chyfiawnder troseddol (Florence et al, 2011; 2014).

Rhaglen ISTV MOPAC (Llundain, Lloegr): Mae rhaglen ISTV MOPAC yn cefnogi lleihau trais drwy gasglu data dienw ar ddigwyddiadau treisgar yr adroddwyd amdanynt i'r 28 o adrannau damweiniau ac achosion brys yn Llundain. Rhennir data â dadansoddwyr awdurdodedig sy'n gweithio i leihau trais drwy borth data troseddau diogel Safestats Awdurdod Llundain Fwyaf. Mae'r rhaglen yn cynnwys cysylltu ag ysbytai a dadansoddwyr i wella trefniadau llywodraethu data a chynyddu'r defnydd o'r data ISTV wrth wneud penderfyniadau yn rheolaidd (Awdurdod Llundain Fwyaf, 2020).

Rhwydwaith Cenedlaethol Gwyliadwriaeth Trais (NVSN): Mae'r NVSN (sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Caerdydd) yn estyniad o Fodel Caerdydd, sy'n cynnwys dros 100 o adrannau damweiniau ac achosion brys, unedau mân anafiadau a chanolfannau galw i mewn yng Nghymru a Lloegr, gan gasglu eitemau data Model Caerdydd i greu darlun cenedlaethol o drais yn seiliedig ar ddata iechyd. (Sivarajasingham et al, 2015). Defnyddir data i ategu gwybodaeth a gesglir yn genedlaethol drwy'r Arolwg Troseddau yng Nghymru a Lloegr a throseddau a gofnodwyd gan yr heddlu (Elkin et al, 2019).

Y Grŵp Cudd-wybodaeth ar Drawma ac Anafiadau (TIIG; Gogledd Orllewin Lloegr): Sefydlwyd y TIIG (sydd wedi'i leoli yn LJMU) yn 2001 i ddatblygu system cadw gwyliadwriaeth ar anafiadau i alluogi i ddata gael eu casglu a'u rhannu yn systematig. Mae TIIG yn casglu ac yn adrodd ar yr holl wybodaeth am anafiadau gan adrannau damweiniau ac achosion brys yng Ngogledd-orllewin Lloegr (gan gynnwys data ISTV) a Gwasanaeth Ambiwylans Gogledd-orllewin Lloegr, gan gynnwys data i adnabod tueddiadau, cymunedau a grwpiau sydd mewn perygl, a lleoliadau lle mae trais yn broblem. Mae'r TIIG yn cysylltu â phartneriaid iechyd i wella ansawdd data, datblygu prosesau ac allbynnau rhannu data fel sy'n berthnasol i bob sir (e.e. adroddiadau; systemau rhannu data amlasiantaeth ar y we), a hyrwyddo'r defnydd o ddata iechyd (a phartneriaid eraill) mewn gweithgaredd atal drwy hyfforddiant a digwyddiadau amlasiantaeth (<https://tiig.ljmu.ac.uk>).

Dangosfwrdd Trais Difrifol (VRU Dyffryn Tafwys, Lloegr): Sefydlwyd y Dangosfwrdd Trais Difrifol gan VRU Dyffryn Tafwys i gefnogi partneriaid lleol i fynd i'r afael â thrais difrifol. Mae'r dangosfwrdd rhyngweithiol yn delweddu data'r heddlu ac yn caniatáu i bartneriaid ddeall lle mae trais difrifol yn digwydd i gefnogi ymyriadau wedi'u targedu. Er mis Ebrill 2020, defnyddiwyd data i dargedu gweithrediadau'r heddlu (drwy'r Ymgyrch RASURE). Ar hyn o bryd mae'r VRU yn ehangu'r dangosfwrdd i gynnwys ffynonellau data ychwanegol i ddarparu golwg gyfannol o drais (e.e. galwadau am ambiwlans, derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys, data stopio a chwilio) (VRU Dyffryn Tafwys, 2021a/b).

System Cadw Gwyliadwriaeth ar Anafiadau Gorllewin Canolbarth Lloegr (WMISS; Gorllewin Canolbarth Lloegr): Sefydlwyd WMISS yn 2016 ac mae'n cael ei gweithredu gan Public Health West Midlands (ar ran partneriaid Gorllewin Canolbarth Lloegr). Ei nod yw galluogi rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau iechyd, partneriaethau diogelwch cymunedol a phartneriaid ehangach i ddeall patrwm a natur trais sy'n digwydd ledled Gorllewin Canolbarth Lloegr yn well. Mae'r WMISS yn casglu ac yn rhannu data ar dderbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys cysylltiedig â thrais (gan gynnwys data ISTV), derbyniadau i'r ysbyty, galwadau am ambiwlans ac ymosodiadau a gofnodwyd gan yr heddlu ble roedd anaf ledled Gorllewin Canolbarth Lloegr (Ahmed et al, 2020).

1.3 System Gwyliadwriaeth a Dadansoddi Trais Cymru (WVSAS)

Wedi'i sefydlu yn 2014, gan ganolbwyntio ar Dde Cymru i ddechrau, nod yr WVSAS yw cefnogi gwaith atal trais drwy ddatblygu system wylidwriaeth sy'n coladu, yn dadansoddi ac yn rhannu data ar drais o sawl ffynhonnell ddata. Yn 2019, ymgorfforwyd WVSAS yn rhaglen waith VPU Cymru, gyda'r nod o ehangu'r system i gwmpasu Cymru gyfan. Drwy gyflwyno'r system, yr amcanion yw hyrwyddo dull iechyd y cyhoedd amlasiantaeth o atal trais, gan gynorthwyo partneriaid i ddeall maint a natur y broblem, ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol, a defnyddio'r data i dargedu ymyriadau'n seiliedig ar anghenion lleol. At hynny, gellir defnyddio data o'r fath i fonitro a gwerthuso effaith ymyriadau, ac eiriol dros ddulliau atal. Mae'r WVSAS yn cefnogi dull system gyfan y VPU ar gyfer atal trais a'i nod yw cefnogi pob un o bedwar maes allweddol eu model gweithredu (Ymwybodol, Eiriol, Cynorthwyo a Mabwysiadu; Ffigur 2).

1.4 Rhesymeg, dull gweithredu a dulliau'r gwerthusiad

Er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r WVSAS, a chefnogi ehangu'r system ledled Cymru, comisiynodd y VPU werthusiad o'r system. Bydd hyn yn galluogi partneriaid VPU i ddeall manteision a chyfyngiadau'r WVSAS wrth atal trais ledled Cymru. Ymhellach, bydd yn helpu i lywio datblygiadau yn y dyfodol i wella ansawdd ac effeithlonrwydd y system, gan ystyried anghenion y boblogaeth leol, ffocws strategol partneriaid VPU, yr adnoddau sydd ar gael, a galluedd rhannu data a mynediad at ddata. Nod trosfwaol yr astudiaeth hon yw gwerthuso datblygiad, gweithrediad ac effeithiau'r WVSAS. Mae'r prif amcanion yn cynnwys:

- Deall a disgrifio pwrpas, datblygiad, elfennau a phriodoleddau'r WVSAS;
- Nodi gwerth y data a'r dadansoddiadau sydd ar gael a gynhyrchir drwy'r WVSAS i weithgaredd atal trais ledled Cymru, a chanlyniadau ac effeithiau defnyddio'r data;
- Ymchwilio i anghenion data partneriaid i lywio dull iechyd y cyhoedd o atal trais, meysydd posibl ar gyfer trawsnewid yr WVSAS, a rhwystrau a hwyluswyr.

Defnyddiodd y gwerthusiad ystod o ddulliau i gasglu tystiolaeth (gweler Atodiad 1 am fanylion llawn), gan gynnwys:



Arolwg (n=50) a chyfweliadau (n=7) gyda phartneriaid y VPU sy'n derbyn gwybodaeth gan yr WVSAS yn ymchwilio i'w barn am yr WVSAS, ac a ydynt yn defnyddio'r WVSAS i atal trais ac, os felly, sut.



Adolygiad o ddogfennau (n=10) sy'n berthnasol i'r WVSAS ers ei sefydlu (2014), Adroddiadau Monitro Trais (n=17) a deunyddiau cyfathrebu'r VPU (e.e. negeseuon e-bost) ynghylch yr adroddiadau.

1.5 Cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad

Cyflwynir canfyddiadau'r gwerthusiad gan gyfeirio at ganllawiau'r Canolfannau Rheoli Clefydau a WHO ar werthuso systemau gwyliadwriaeth ac maent yn cwmpasu:

- Pwrpas a gweithrediad yr WVSAS (Adran 2);
- Priodoleddau'r WVSAS (Adran 3);
- Defnyddioldeb yr WVSAS, gan gynnwys enghreifftiau o ddefnyddio'r WVSAS yng Nghymru (Adran 4); ac,
- Hwyluswyr allweddol a rhwystrau rhag defnyddio'r WVSAS a meysydd i'w trawsnewid (Adran 5).

Daw'r dystiolaeth ar gyfer pob adran o'r holl ddulliau casglu data a weithredwyd, gyda'r canfyddiadau wedi'u triongli i archwilio'r agwedd sy'n destun ymchwiliad. Mae Adran 6 yn darparu crynodeb o'r argymhellion allweddol ar gyfer trawsnewid yrWVSAS.

2. Pwrpas a Gweithrediad yr WVSAS

2.1 Nod ac amcanion

Nod: Cefnogi gwaith atal trais drwy ddatblygu system gwyliadwriaeth trais sy'n coladu, yn dadansoddi ac yn rhannu data ar drais o sawl ffynhonnell ledled Cymru.

Amcanion:

- Hyrwyddo dull iechyd y cyhoedd amlasiantaeth o atal trais, gan gynorthwyo partneriaid i ddeall maint a natur y broblem, ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol.
- Defnyddio data amlasiantaeth i dargedu ymyriadau yn seiliedig ar anghenion lleol.
- Defnyddio data amlasiantaeth i fonitro a gwerthuso effaith ymyriadau.

Nod yr WVSAS yw "creu'r ddealltwriaeth honno ledled Cymru... er mwyn galluogi datrysiadau lleol a darparu llwyfan i amlasiantaethau fesur effaith ymyriadau." Cyfwelai 1 (11)

Yn 2019, ymgorfforodd VPU Cymru yr WVSAS yn ei rhaglen waith, fel rhan o ddull iechyd y cyhoedd system gyfan o atal trais ledled Cymru. Cyn hyn, roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn rheoli'r WVSAS (a oedd yn canolbwyntio ar Dde Cymru yn unig) fel rhan o bartneriaeth amlasiantaeth a sefydlwyd ym mis Ebrill 2014 gyda Heddlu De Cymru (HDC), Byrddau Iechyd De Cymru³ (BIDC) ac

Blwch 2: Hanes yr WVSAS cyn sefydlu VPU Cymru

Ym mis Ebrill 2014, cydweithiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), Byrddau Iechyd De Cymru (BIDC), Heddlu De Cymru (HDC) ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST) i ddatblygu system gwyliadwriaeth a dadansoddi reolaidd ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal trais yn Ne Cymru (h.y. yr WVSAS). Roedd y prosiect yn rhan o Gynllun Lleihau Trosedd Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru (CHTh) 2013-2017, a oedd yn cynnwys nodau strategol i fynd i'r afael â thrais drwy ddeall trais mewn ffordd gyfannol; atal trais gan ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth; ac ymyrryd mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Fel rhan o'r prosiect, cychwynnodd y bartneriaeth amlasiantaeth ar ddull newydd o rannu data a gasglwyd yn rheolaidd ar drais, a'i nod oedd coladu a chysylltu ffynonellau data amlasiantaeth ledled De Cymru (h.y. yr heddlu, adrannau damweiniau ac achosion brys a'r gwasanaeth ambiwlans). Prif nod y dull newydd hwn oedd ymchwilio i pam bod cyfradd yr achosion o drais sy'n cael eu hadrodd i'r heddlu yn isel a gwella gwaith atal drwy nodi'n well ardaloedd, grwpiau a chymunedau sydd mewn perygl o ddioddef trais er mwyn targedu gweithgaredd atal (Gray et al, 2017). Yn seiliedig ar gytundebau rhannu data, fe wnaeth ICC gasglu, dadansoddi a chyflwyno'r data mewn adroddiadau gwyliadwriaeth trais lleol a gynhyrchwyd bob deufis ar gyfer pob Uned Reoli Sylfaenol yr Heddlu yn Ne Cymru a'u rhannu â Grwpiau Atal Trais Amlasiantaeth. Yn ogystal â chyflwyno'r data, roedd adroddiadau hefyd yn cynnwys argymhellion yn seiliedig ar ddata i lywio gweithgaredd atal (a luniwyd gan staff ICC, HDC a'r CHTh). Roedd rhanddeiliaid ar draws y bartneriaeth, yn enwedig staff o swyddfa'r CHTh, yn annog defnyddio'r adroddiadau mewn ymdrechion i atal trais, ac yn rhoi adborth i ddarparwyr data ynghylch defnyddio data ac ansawdd data (Barton et al, 2016). Defnyddiwyd y data fel sail i ystod o weithgaredd atal ledled De Cymru (gweler Blwch 5 am enghreifftiau).

³ Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg gynt [BIPABM]), Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn flaenorol [BIPCT]).

Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST). Mae Blwch 2 yn rhoi trosolwg o weithrediad yr WVSAS cyn sefydlu'r VPU.

2.2 Poblogaeth darged a diffiniad o achos

Er bod yr WVSAS wedi'i sefydlu'n wreiddiol ar gyfer De Cymru, er 2019 mae'r VPU wedi bod yn gweithio i ymestyn yr WVSAS i gwmpasu Cymru gyfan (tuag 3.1 miliwn o bobl yn 2019 [StatsCymru, 2021]).

O'r cychwyn, mae'r WVSAS wedi dilyn dull iechyd y cyhoedd o atal trais (fel y'i diffinnir gan WHO), ac wedi mabwysiadu diffiniad WHO o drais:

“Y defnydd bwriadol o rym neu bŵer corfforol, boed yn fygythiad neu'n wir ddefnydd, yn erbyn eich hunan, person arall, neu yn erbyn grŵp neu gymuned, sy'n arwain at, neu'n debygol iawn o arwain at, anaf, marwolaeth, niwed seicolegol, camddatblygiad neu amddifadedd” (Krug et al, 2002).

Mae datblygiad parhaus yr WVSAS yn golygu ei fod bellach yn canolbwyntio ar bob math o drais rhyngpersonol gan gynnwys cam-drin a cham-fanteisio ar blant, trais ymysg ieuenctid, trais gan bartner agos/cam-drin domestig, trais rhywiol a cham-drin pobl hŷn. Mae'r WVSAS yn cynnwys data gan ystod o bartneriaid ac yn debyg i systemau gwyliadwriaeth trais amlasiantaeth eraill (e.e. gweler Blwch 1) mae'n cynnwys dangosyddion ar gyfer trais rhyngpersonol gan ddefnyddio mesurau amrywiol o'r ffynonellau data hyn. Ers ei sefydlu, mae'r WVSAS wedi casglu data o dair ffynhonnell graidd:

1. Data'r heddlu: mae'r dangosyddion cyfredol yn cynnwys trais yn erbyn yr unigolyn, cam-drin rhywiol, troseddau cyllyll, cyffuriau, cam-drin domestig, trais ar sail anrhydedd, troseddau casineb, ymddygiad gwrthgymdeithasol (sy'n cynnwys holl heddluoedd Cymru ar hyn o bryd).
2. Data iechyd: Data derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys oherwydd ymosodiad gan gynnwys ISTV (sy'n cwmpasu'r holl adrannau damweiniau ac achosion brys ar draws BIDC yn unig ar hyn o bryd).
3. Data iechyd: Galwadau am ambiwlans ar gyfer anaf sy'n gysylltiedig â thrais (sydd ar hyn o bryd yn cwmpasu Cymru gyfan).

Mae set ddata damweiniau ac achosion brys yr WVSAS yn ehangu ar ofynion data ISTV, ac mae'n cynnwys set ddata ehangach sy'n cynnwys data unigoledd i alluogi croesgyfeirio a chydgrynhoi setiau data ymhellach, a'r gallu i adnabod grwpiau a chymunedau sydd mewn perygl (gweler 3.5; Gray et al, 2017).

Fel rhan o ymateb y VPU i COVID-19 (VPU, 2020a), ers mis Ebrill 2020, mae Adroddiadau Monitro Trais arferol wedi'u cynhyrchu fel un o allbynnau'r WVSAS. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys ystod o ddata a chudd-wybodaeth ychwanegol a gafwyd drwy bartneriaid VPU a ffynonellau eraill, yn ychwanegol at y data a gasglwyd o'r tair ffynhonnell graidd. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y galw am wasanaeth/ymyrraeth a'r nifer sy'n ei ddefnyddio (e.e. cysylltiadau â llinellau cymorth; atgyfeiriadau at wasanaethau) a deallusrwydd i ddeall natur trais, a ffactorau risg ac amddiffynnol (e.e. gwybodaeth ddiennw a dderbynnir gan Taclo'r Tacle; adroddiadau o weithgareddau, digwyddiadau neu faterion cymunedol, tystiolaeth o adroddiadau ymchwil). Mae Atodiad 8.2 yn darparu manylion llawn y ffynonellau data a gynhwysir yn rheolaidd yn yr WVSAS, a'r ffynonellau data ychwanegol y cafwyd mynediad iddynt ers mis Ebrill 2019 fel rhan o ymateb y VPU i COVID-19.

2.3 Yr adnoddau a ddefnyddir i weithredu'r system

Mae ystod o bartneriaid yn cefnogi'r WVSAS drwy:

- Eiriol dros ddull iechyd y cyhoedd o atal trais sy'n cael ei arwain gan ddata a thystiolaeth;
- Casglu data, sefydlu prosesau rhannu data rhwng partneriaid, a rhannu data;
- Rheoli, glanhau, dadansoddi, dehongli a lledaenu data;
- Hyrwyddo'r defnydd o allbynnau, a'r WVSAS ar gyfer atal trais (e.e. drwy gyfathrebu a chyfarfodydd grwpiau llywio amlasiantaeth).

Ar hyn o bryd mae'r partneriaid sy'n cyfrannu data i'r WVSAS yn cynnwys: HDC; BIDC; WAST; a gwasanaethau statudol, cymunedol a gwirfoddol ehangach (fel rhan o'r ymateb i COVID-19, gweler Atodiad 8.2). Ar gyfer mwyafrif y darparwyr data, mae data eisoes yn cael eu casglu fel rhan o'u gweithdrefnau presennol, ac mae rhannu data at ddibenion yr WVSAS wedi'i ymgorffori mewn rhaglenni gwaith sefydliadol (gydag unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo gan ddarparwr y data). Mae Blwch 3 yn rhoi enghraifft o sut y gwnaeth BIDC ehangu eu system casglu data i lywio gwaith atal trais.

Drwy'r VPU ac adnoddau staff ychwanegol sydd wedi'u hymrwymo i'r VPU gan asiantaethau partner, darperir dadansoddwyr a staff eraill i gynnal, hyrwyddo a datblygu'r WVSAS.

Hyd yma, darperir meddalwedd TG ar gyfer yr WVSAS gan ICC. Fel rhan o uchelgais y VPU i ddatblygu'r WVSAS ymhellach a'i ehangu i gwmpasu Cymru gyfan, comisiynwyd darparwr allanol i ddatblygu Hyb Data Atal Trais (Hyb VIP; gweler Adran 5).

Blwch 3: Datblygu dull casglu data adrannau damweiniau ac achosion brys ledled De Cymru

Gyda chydabyddiaeth gynyddol o werth ac effaith data adrannau damweiniau ac achosion brys mewn perthynas ag atal trais (e.e. drwy Fodel Caerdydd a systemau gwyliadwriaeth trais sefydledig eraill; Blwch 1), yn ystod datblygiad cynnar yr WVSAS, gweithiodd ICC gyda BIDC i ymgorffori set ddata graidd a chyson ar drais (gweler Atodiad 8.2) yn eu system casglu data bresennol (Symffony). Treialwyd y system casglu data yn adrannau damweiniau ac achosion brys BIPABM o fis Tachwedd 2016 ymlaen, cyn ei chyflwyno i bob adran damweiniau ac achosion brys ar draws BIDC (Barton et al, 2016). Yn ogystal, datblygodd BIDCau eu systemau data i hyrwyddo system casglu data fwy safonol o fewn ac ar draws adrannau damweiniau ac achosion brys. Er enghraifft, datblygwyd systemau i sicrhau bod data lleoliad ymosodiadau testun rhydd yn cael eu codio mewn ffordd unffurf (er enghraifft byddai The Three Horseshoes Pub; Three Horseshoes, 3 Horseshoes yn trosglwyddo i'r un cofnod yn y maes hwn). Ar ôl i ddata gael eu rhannu i'r WVSAS, mae prosesau wedi'u sefydlu i ganiatáu mapio lleoliad ymosodiadau a data ar fan preswyllo'r dioddefwyr gan ddefnyddio codau post lleoliad a chyfesurynnau daearyddol dwyreiniad a gogleddiad ar gyfer pwynt ar fap (Barton et al, 2016).

Er mwyn cefnogi'r prosesau hyn, fe wnaeth Cydlynwyr Perthnasoedd Lleihau Trais (VRRC; a gyflogir gan CHTh De Cymru) ymgysylltu â staff damweiniau ac achosion brys i ddangos gwerth y set ddata newydd ar drais ac, yn hollbwysig, pwysigrwydd data o ansawdd da. Yn dilyn hynny, gwelwyd gwelliant yn y data a gasglwyd ar drais a'u hansawdd ar draws adrannau damweiniau ac achosion brys, a daeth monitro ansawdd data (bob chwe mis) yn eitem allweddol ar yr agenda mewn grwpiau atal trais lleol gyda VRRCs yn cwrdd â staff damweiniau ac achosion brys yn barhaus i annog a chynnal data o ansawdd da.

3. Priodolddau'r WVSAS

3.1 Symlirwydd

3.1.1 Trosolwg o fodel gweithredu'r WVSAS


Cyflawnir yr WVSAS drwy bedair elfen graidd:

1. **Casglu a rhannu data:** Ar gyfer y tair ffynhonnell ddata graidd, mae darparwyr data yn casglu data ar drais ac yn cofnodi hyn ar systemau TG eu sefydliad, gan anfon data yn electronig drwy system rhannu data ddiogel i ICC eu cynnwys yn yr WVSAS. Ar gyfer y ffynonellau data hyn, sefydlwyd cytundebau diogelu data yn ymwneud â rhannu gwybodaeth cyn dechrau rhannu'r data wrth iddynt ddarparu data unigedig. Mae cytundebau rhannu data yn cael eu diweddarau ar hyn o bryd i adlewyrchu datblygu'r WVSAS, gan gynnwys eu hymgorffori yn y VPU a'u hymestyn ledled Cymru. Ar hyn o bryd mae ffynonellau data ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiadau Monitro Trais (e.e. gan wasanaethau cymunedol a gwirfoddol) yn cael eu rhannu'n uniongyrchol â'r VPU, drwy arolwg ar-lein⁴ neu i aelodau o dîm y VPU. Mae'r data hyn yn ddienw a/neu'n gyfanredol, ac nid oes angen cytundeb diogelu data yn ymwneud â rhannu gwybodaeth ar eu cyfer, ond mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar gyfer rhannu data yn cael ei lunio i bartneriaid ei lofnodi.
2. **Rheoli, glanhau a dadansoddi data:** Mae'r VPU yn coladu, yn glanhau ac yn storio holl ddata partneriaid ar system TG ddiogel a gynhelir gan ICC. Dadansoddir a chyflwynir data fel sy'n berthnasol i ofynion adrodd partneriaid y VPU, ac o fewn paramedrau amcanion yr WVSAS.
3. **Lledaenu data:** Mae'r VPU yn cynhyrchu allbynnau fel sy'n berthnasol i anghenion partneriaid VPU, gydag allbynnau'n cael eu lledaenu a'u trafod mewn amrywiol gyfarfodydd partner.
4. **Defnyddio data i atal trais:** Mae tîm a phartneriaid y VPU sy'n derbyn allbynnau yn defnyddio'r data i wella dealltwriaeth o drais er mwyn hyrwyddo dull iechyd y cyhoedd o atal trais, llywio datblygiad a thargedu ymyriadau, a monitro a gwerthuso eu heffaith (gweler Adran 4).

Caiff yr Adroddiadau Monitro Trais cyfredol eu dosbarthu drwy e-bost (fel dolen wedi'i mewnlannu) i dros 450 o bartneriaid unigol gan gynnwys yr heddlu, CHTh, gwasanaeth iechyd/iechyd y cyhoedd, llywodraeth leol a chenedlaethol, carchardai, y gwasanaeth prawf, cyfiawnder ieuencid, mewnffudo, addysg, gwasanaeth tân, diogelwch cymunedol, a gwasanaethau cymunedol a gwirfoddol. Mae tua 16% o'r rhai sy'n derbyn yr adroddiadau wedi'u lleoli y tu allan i Gymru (e.e. VRUs eraill, adrannau o Lywodraeth y DU). Mae partneriaid yn gofyn am ganiatâd i dderbyn yr adroddiadau a chael mynediad atynt (gweler Adran 3.6 am ragor o fanylion). Caiff prif adroddiad a chrynodeb eu rhannu ar ffurf PDF. Caiff y defnydd o'r WVSAS a'r Adroddiadau Monitro Trais ei hyrwyddo drwy bartneriaid lleol ac yn benodol gan y VPU mewn amrywiol ddeunyddiau cyfathrebu â phartneriaid y VPU (e.e. cylchlythyr misol).

Ar hyn o bryd mae'r VPU yn datblygu'r WVSAS i alluogi partneriaid i gael mynediad at ddata drwy Hyb VIP diogel ar-lein (gweler Ffigur 3 ac Adran 5).

⁴ Dosberthir gan y VPU i bartneriaid drwy e-bost.

Ffigur 3: Y model gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer yr Hyb Data Atal Trais Cymru gyfan

3.1.2 Safbwyntiau partneriaid

Ymhlith yr ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn ymwybodol o'r Adroddiadau Monitro Trais (96.0%): dywedodd 37.5% eu bod wedi dod yn ymwybodol ohonynt drwy dîm VPU Cymru; 37.5% drwy eu sefydliad; 37.5% drwy e-fwletin VPU; 16.7% drwy'r rhwydwaith VRU; 12.5% drwy weminar VPU; 8.3% drwy wefan VPU; 6.3% drwy adroddiadau neu gyhoeddiadau VPU; a, 4.2% drwy bartner allanol. Nododd y mwyafrif (85.4%) eu bod yn derbyn yr adroddiad yn uniongyrchol gan y VPU.

Ymhlith y rhai a oedd wedi derbyn yr Adroddiadau Monitro Trais (ac wedi adrodd eu bod wedi darllen o leiaf un adroddiad [n=42]), roedd y mwyafrif⁵ yn cytuno eu bod yn ei chael hi'n hawdd deall y data a gyflwynwyd mewn tablau a graffiau


"Mae'r adroddiadau (Monitro Trais) hyn yn cynnwys cydbwysedd da o ddata a naratif, a chaiff hyn ei ddadansoddi'n dda iawn."

Ymatebydd i'r arolwg

(92.9%) a'r sylwebaeth yn crynhoi ac yn dehongli'r data a gyflwynwyd (92.9%), a bod y canllawiau a ddarperir ar ansawdd y data yn cynorthwyo gyda dehongli'r data (76.2%). Roedd 60.0% yn cytuno bod yr adroddiadau yn caniatáu iddynt weld dadansoddiad o ddata/gwybodaeth sydd ei hangen arnynt hwy neu eu sefydliad ar gyfer atal trais a dywedodd 75.6% eu bod yn eu galluogi i gael mynediad at ddata na fyddai ganddynt fynediad ato fel rheol (Ffigur 4)⁶.

⁵ Yn cynnwys y rhai a oedd yn cytuno ac yn cytuno'n gryf.

⁶ Drwyddi draw, mae'r canrannau a gyflwynir yn cynrychioli'r rhai a atebodd bob cwestiwn (e.e. yma mae'r nifer sy'n cwblhau pob cwestiwn yn amrywio o 39-42 o ddarllenwyr adroddiadau).

Ffigur 4: Barn rhanddeiliaid ar yr Adroddiadau Monitro Trais - symlrwydd

3.2 Hyblygrwydd

Er 2014, mae'r WVSAS wedi addasu mewn sawl ffordd i ddiwallu anghenion gwybodaeth ac amodau gweithredu sy'n newid. Mae'r VPU yn cydnabod y bydd angen i'r WVSAS esblygu'n barhaus wrth i'r broses o ddarparu gwasanaethau a seilwaith newid. Amlygir isod enghreifftiau o addasiadau allweddol, ynghyd â manylion am sut y gwnaeth yr WVSAS ymdrin â'r newidiadau hyn.

Integreiddio i sefydliadau partner: Rhwng 2014-2016, mae'r pedwar partner craidd, sef ICC, BIDC, HDC a WAST wedi integreiddio'r WVSAS i raglenni a systemau gwaith eu sefydliadau (gweler Blwch 2). Cafodd y gwaith o gasglu a rhannu data, a'r defnydd ohonynt mewn gweithgaredd atal trais, ei gynnal hyd at 2018/19, ac yn dilyn bwlch mewn cyllid ac adnoddau i gynnal y system, cafodd ei ymgorffori yn rhaglen waith VPU yn 2019/20.

Amrywiadau mewn cyllid ac adnoddau: Oherwydd materion yn ymwneud ag adnoddau a chapasiti, ni weithredwyd yr WVSAS yn llawn yn y flwyddyn cyn sefydlu'r VPU (Mehefin 2019). Bu sefydlu'r VPU, a chyflogi dadansoddwyr (o fewn ICC), a oedd hefyd â phrofiad blaenorol o'r WVSAS, yn fodd o ailsefydlu'r system, gyda data o'r WVSAS yn cael eu defnyddio i lywio Asesiad o Anghenion Strategol y VPU (Mawrth 2020) ac wedi hynny ar gyfer yr Adroddiadau Monitro Trais (a gyhoeddwyd o fis Ebrill 2020 ymlaen). Yn ogystal, mae dadansoddwr y VPU wedi ailddechrau cynhyrchu adroddiadau (gan ganolbwyntio ar y tair ffynhonnell ddata graidd) a rennir â phartneriaethau De Cymru.

Gwella'r broses o gasglu data yn rheolaidd: Yn ystod y camau cynnar o ddatblygu'r WVSAS, cynhaliwyd asesiad o ddata partneriaid (heddlu, adrannau damweiniau ac achosion brys a'r gwasanaeth ambiwlans) i ymchwilio i berthnasedd, cysondeb ac ansawdd y data a gasglwyd (ymhlith priodolddau eraill), a gwnaed argymhellion i ddarparwyr data ar sut y gellid gwella eu proses casglu data ac ansawdd y data. Rhoddir enghraifft o'r newidiadau a wnaed ym Mluch 3 ar gyfer adrannau damweiniau ac achosion brys.

Ymateb i anghenion gwybodaeth yn ystod COVID-

19: Er mis Mawrth 2020, fel rhan o ymateb ehangach i COVID-19, addasodd y VPU ei chynlluniau cyflawni i ddarparu gwybodaeth, capasiti a gallu i sefydliadau partner yn ystod y pandemig. Rhan allweddol o hyn fu datblygu ei rôl dadansoddeg data, a dod â data'r

"Intelligence gathered to date supports the idea that those already vulnerable are at greater risk of violence and abuse as result of COVID-19 restrictions."

Snowdon et al, 2020

bartneriaeth ynghyd drwy'r WVSAS i alluogi partneriaid i ddeall a monitro graddfa, natur ac effaith trais a nodi unrhyw dueddiadau, patrymau a mannau lle mae trais yn broblem yn ystod ac ar ôl y brigiad o achosion. Rhoddwyd nifer o gamau ar waith i gefnogi hyn gan gynnwys:

- Gweithgaredd codi ymwybyddiaeth drwy ddulliau cyfathrebu'r VPU (e.e. cylchlythyrau) o ymateb y VPU i COVID-19, yr WVSAS a cheisiadau i bartneriaid gyfrannu eu data at Adroddiadau Monitro Trais COVID-19.
- Datblygu ffurflen ar-lein wedi'i dylunio i gasglu mewnwelediad a gwybodaeth yn wythnosol gan weithwyr proffesiynol gweithredol a strategol ar effaith cyfyngiadau COVID-19 ar lefelau trais er mwyn eu cynnwys mewn Adroddiadau Monitro Trais.
- Lansio asesiad risg deinamig (yr Adroddiadau Monitro Trais) ym mis Ebrill 2020, a ddosbarthwyd yn wythnosol i bartneriaid (ac yna'n fisol o fis Medi 2020 ymlaen), i alluogi cyflwyno mesurau atal ac ymateb wedi'u harwain gan ddata ac i ychwanegu at y dystiolaeth ar gyfer ymatebion i'r pandemig yn y dyfodol (VPU, 2020a).

Mae'r Adroddiad Monitro Trais wedi parhau i esblygu i ddiwallu anghenion partneriaid lleol gan gynnwys:

- Ychwanegu ffynonellau data newydd;
- Dadansoddi a chrynhofi data mewn gwahanol ffyrdd (gan gynnwys cynhyrchu adroddiad cryno a dadansoddiad thematig o sut mae'r newidiadau yn y cyfyngiadau yn effeithio ar drais); a
- Rhannu adroddiadau ar wahanol gyfnodau.

Gwella'r broses o reoli data a mynediad at ddata: Mae deunyddiau cyfathrebu'r VPU yn rhybuddio partneriaid am lefel yr adnoddau sydd eu hangen i gynhyrchu'r Adroddiadau Monitro Trais, ac felly'n annog partneriaid i roi adborth ar eu gwerth a'r newidiadau yr hoffent eu gweld, gan ddangos eu parodrwydd i addasu allbwn yr WVSAS i ddiwallu anghenion partneriaid. Yn 2021, mae'r VPU yn gweithio tuag at ddatblygu hyb ar-lein (Hyb VIP (gweler Adran 5)) ac yn bwriadu uwchraddio'r system ledled Cymru, gan ganolbwyntio i ddechrau ar setiau data'r heddlu, y gwasanaeth ambiwlans ac adrannau damweiniau ac achosion brys. Yn ogystal, maent yn ymchwilio i gyfleoedd i gynnwys setiau data eraill (e.e. demograffeg gymdeithasol). Bydd hyn yn golygu y gall partneriaid lleol gael mynediad at y data yn ôl yr angen, drwy'r hyb VIP ar-lein diogel. Bydd data ar gael mewn sawl fformat, gyda phartneriaid yn gallu teilwra dadansoddiadau ac allbynnau'r dadansoddiadau i ddiwallu eu hanghenion.

3.3 Derbynioldeb

3.3.1 Casglu a rhannu data

Er mis Ebrill 2019, mae nifer y partneriaid sy'n cyfrannu data i'r WVSAS (yn benodol ar gyfer yr Adroddiadau Monitro Trais) wedi cynyddu o bum gwasanaeth i 22. Yn ogystal, tynnodd llawer o ymatebwyr i'r arolwg/cyfweleion sylw at gyfleoedd i gyfrannu data i'r WVSAS, gan fyfyrir ar y wybodaeth a gyflwynwyd yn yr Adroddiadau Monitro Trais. Er enghraifft gwybodaeth am:

- Weithredu ymyriadau atal trais ledled Cymru, gan gynnwys elfennau ymyrraeth, amser cyflenwi a lleoliad, e.e. sesiynau hyfforddi/ymgysylltu ar drais gan bartneriaid VPU ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd, a lleoliadau addysg amgen yng Nghymru;
- Lleisiau a deallusrwydd cymunedol, a gesglir yn anffurfiol drwy ymgysylltu â'r gymuned neu ddarparu ymyriadau.

"Mae'r adroddiadau hyn (Monitro Trais) ond cystal â'r data a gawn gan bartneriaid. Os oes gennych ddata yn eich sefydliad yr ydych chi'n meddwl y byddent o werth neu os hoffech ddarganfod mwy am ein gwaith, cysylltwch â ni." (Cyfarwyddwr y VPU, gohebiaeth e-bost i bartneriaid y VPU, Ebrill 2020-Chwefror 2021)

At hynny, roedd rhai partneriaid yn cydnabod yr angen i gasglu data a fyddai'n helpu i lywio gweithgareddau eraill partneriaid y VPU, a'u parodrwydd i ymchwilio i hyn gyda'r VPU. Er enghraifft, casglu gwybodaeth i adnabod grwpiau mynyl.

3.3.2 Mynediad at ddata'r WVSAS a'r defnydd ohonynt

Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Chwefror 2021, cynhyrchwyd 17 o Adroddiadau Monitro Trais, a ddosbarthwyd drwy e-bost i restr gynyddol o randdeiliaid, sef 463 yng Nghymru a thu hwnt (e.e. Lloegr) ar hyn o bryd. Mae Tabl 1 yn rhoi trosolwg o'r partneriaid sy'n derbyn yr adroddiadau, gan gynnwys y math o sector a chyfran y partneriaid o bob sector sy'n gweithio yng Nghymru (neu ar gyfer Cymru). Yn ystod Ebrill-Medi 2020, ar gyfartaledd agorodd 27% o randdeiliaid yr adroddiad a chliciodd 16% drwy'r adroddiad (o leiaf unwaith) (VPU, 21). Yn ogystal â hynny, hyd at ddiwedd mis Chwefror 2021, roedd y VPU wedi ymateb i bedwar cais am ddata gan asiantaethau partner i gefnogi eu dealltwriaeth o dueddiadau'n ymwneud â thrais (VPU, 2021). Er enghraifft, ceisiau am ddadansoddiadau o ddata i nodi tueddiadau a grwpiau/cymunedau sydd mewn perygl mewn perthynas ag ymosodiadau â chylllell/gwrthrych miniog ledled De Cymru.

Ymhlith yr ymatebwyr i'r arolwg a dderbyniodd yr adroddiadau, nododd 61.4% eu bod yn darllen pob adroddiad, a nododd 34.1% eu bod ond yn eu darllen pan oedd angen iddynt wneud hynny. Ymhlith y rhai a oedd wedi darllen adroddiad o gwbl, nododd 59.5% eu bod, yn nodweddiadol, yn darllen adrannau o'r adroddiad a oedd fwyaf defnyddiol iddynt hwy/eu sefydliad; dywedodd 26.2% eu bod wedi darllen yr adroddiad cyfan; ac roedd 14.3% wedi darllen y crynodeb yn unig. Roedd yr adrannau o'r adroddiadau a ddarllenwyd gan dros draean o ddarllenwyr 'adroddiad llawn' yn cynnwys: y cyflwyniad/canfyddiadau allweddol a'r argymhellion (33.3%); trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol (45.2%); plant a phobl ifanc (42.9%); a thrais difrifol, grwpiau troseddau cyfundrefnol a throseddau cyllyll (33.3%) (Ffigur 5). Ymhlith yr holl ymatebwyr i'r arolwg, roedd y mwyafrif yn cefnogi datblygiad (95.3%) a pharhad (95.3%) yr Adroddiadau Monitro Trais⁷ (barn a gefnogir gan yr holl gyfweleion). Dywedodd mwyafrif y cyfranogwyr (81.8%) eu bod nhw/eu sefydliad yn bwriadu defnyddio'r adroddiadau yn y dyfodol a dywedodd 18.2% eu bod wedi ymgorffori'r defnydd o'r adroddiadau ym mhrosesau eu sefydliadau.

Barn partneriaid ar yr WVSAS: *"Adnodd hynod fuddiol ac mae'n hanfodol bod y gwaith yn parhau."*
"Mae parhau ag arfer presennol, gan gynnwys cysylltiadau ymchwil a chyfeirio, yn ddefnyddiol iawn."
 Ymatebwyr i'r arolwg

Mae myfyrdod a thystiolaeth y cyfweleion ar yr WVSAS cyn 2019 yn awgrymu bod mynediad at y data, y defnydd ohonynt a'r allbynnau wedi'u hymgorffori mewn partneriaethau amlasiantaeth lleol, gyda


⁷ Gyda'r gweddill yn dewis 'ddim yn gwybod'.

data'n cael eu defnyddio'n rheolaidd i lywio ymyriadau wedi'u harwain gan yr heddlu ledled De Cymru. Er bod ymwybyddiaeth o'r defnydd o allbynnau gan bartneriaid eraill/ar gyfer mathau eraill o ymyrraeth yn gyfyngedig yn ystod y cyfnod cyn 2019, pan ballodd y system (oherwydd cyfyngiadau'n ymwneud ag adnoddau), gofynnodd nifer o bartneriaid am fynediad i'r adroddiadau - partneriaid nad oedd tîm WVSAS yn ymwybodol eu bod wedi bod yn defnyddio'r adroddiadau. Cododd hyn bwysigrwydd deall pwy sy'n edrych ar yr allbynnau a sut y maent yn eu defnyddio i lywio gweithgaredd atal.

Yn ogystal â'r Adroddiadau Monitro Trais, mae dadansoddwr y VPU yn cynhyrchu adroddiadau ar gyfer partneriaethau amlasiantaeth lleol ledled De Cymru. Yn ddiweddar, comisiynodd y VPU adolygiad o'r prosesau rhannu data hyn, gan ystyried yr Adroddiadau Monitro Trais newydd a chynlluniau i ehangu'r system ymhellach. Yn dilyn ymgynghori ag arweinwyr strategol allweddol ledled De Cymru, mae'r VPU wedi gwneud argymhellion i ddatblygu prosesau rhannu data, yn enwedig i sicrhau bod partneriaid perthnasol yn cael mynediad at y data ac yn eu defnyddio i atal trais. Bydd gweithredu'r argymhellion yn rhan o raglen waith VPUs yn 2021/22 (VPU, 2021).

Tabl 1: Sector y partneriaid sy'n darllen yr Adroddiadau Monitro Trais, a'r gyfran sy'n gweithio yng Nghymru / ar gyfer Cymru

Sector	n	% yng Nghymru
Heddlu/CHTh	96	76.0
Awdurdod lleol	61	83.6
Y trydydd sector	60	100.0
Iechyd/iechyd y cyhoedd	54	96.3
Cyfiawnder	49	98.0
Diogelwch cymunedol	39	100.0
VRU allanol	32	0.0
Llywodraeth Cymru	29	100.0
VPU Cymru (tîm craidd)	20	100.0
Addysg - prifysgol	9	55.6
Person hŷn a chenedlaethau'r dyfodol	6	100.0
Swyddfa Gartref	3	100.0
Gwasanaeth tân	2	100.0
Addysg - allanol, llywodraeth y DU	1	0.0
Addysg - llywodraeth Cymru	1	100.0
Arall	1	100.0
Cyfanswm	463	83.6

Ffigur 5: Cyfran y darllenwyr 'adroddiad llawn' sy'n darllen pob rhan o'r adroddiad, arolwg o randdeiliaid

3.3.3 Ymgorffori i'r system gyfan

Yn Asesiad o Anghenion Strategol y VPU, argymhellir *fel blaenoriaeth ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol, dylai'r VPU arwain y gwaith o ddatblygu dull systemau cyfan o rannu data i gynnwys, yn y lle cyntaf, ymgysylltu â phartneriaid i ddeall pa ddata sy'n cael eu casglu a sut y gellir eu defnyddio*. (VPU, 2020b). Mae datblygu a chynhyrchu'r Adroddiadau Monitro Trais wedi rhoi cyfle i bartneriaid rannu eu data gyda'r system, ac wedi codi ymwybyddiaeth o sefydliadau sy'n gweithio tuag at atal trais ledled Cymru, a'r ffynonellau data y mae ganddynt fynediad atynt. Nod datblygu a chomisiynu'r Hyb VIP yw ymgorffori'r WVSAS ymhellach ar draws y system gyfan, gan helpu i ddatrys rhwystrau i rannu data, a pharhau i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar drais ledled Cymru. Fodd bynnag, yn allweddol, amlygodd y partneriaid fod angen rhagor o waith i sicrhau bod y system yn symud o fod yn system gwyliadwriaeth trais 'De Cymru' i fod yn system 'Cymru Gyfan' (gweler Adran 5).

3.4 Ansawdd ac amseroldeb y data

Awgrymodd gwerthusiad cychwynnol o'r WVSAS a gynhaliwyd yn 2016 fod ansawdd y data a rannwyd gan y tri phartner craidd wedi gwella ers i'r prosiect ddechrau. Nodwyd bod darparu adroddiadau ar ansawdd y data a bwydo hyn yn ôl i ddarparwyr y data yn hwylusydd allweddol er mwyn gwella ansawdd y data (Barton et al, 2016).

Yn y gwerthusiad cyfredol, roedd mwyafrif (85.4%) yr ymatebwyr i'r arolwg a oedd wedi darllen Adroddiad Monitro Trais yn cytuno bod ganddynt hyder yn ansawdd y data a ddarperir. Er gwaethaf hyn, mae'r adroddiadau'n darparu enghreifftiau o feysydd lle mae angen datblygu ansawdd y data, neu sut y gall prosesau cofnodi data effeithio ar ansawdd y data. Nododd rhai cyfweleion hefyd broblemau gydag ansawdd data ymosodiadau adrannau damweiniau ac achosion brys, yn enwedig mewn perthynas ag amgylchiadau'r ymosodiad (e.e. lleoliad). Mae archwiliad diweddar o ddata adrannau damweiniau ac achosion brys De Cymru a gynhaliwyd gan y VPU yn dangos mai data lleoliad ymosodiadau (testun rhydd) oedd â'r gyfradd gwblhau isaf, ac ar y cyfan barnwyd mai tua hanner y data ar leoliad ymosodiadau yr oedd modd ei ddefnyddio.

Mae Atodiad 8.2 yn rhoi manylion ynghylch pa mor rheolaidd y rhennir data ar yr WVSAS. Mae pob sefydliad yn rhannu ei ddata bob chwarter o leiaf, gyda'r mwyafrif yn eu rhannu bob mis (VPU, 2021). Roedd dwy ran o dair (65.9%) o'r cyfranogwyr i'r arolwg yn teimlo y dylid rhannu'r data a gyflwynir yn yr Adroddiadau Monitro Trais gyda phartneriaid yn fisol (eu rheoleidd-dra cyfredol).

3.5 Cynrychiolaeth a sensitifrwydd

Drwy'r VPU, mae'r WVSAS yn ehangu o system De Cymru i system Cymru Gyfan. Mae'r data bellach yn cynnwys pobl heddlu a'r gwasanaethau ambiwlans ledled Cymru. Drwy'r Adroddiadau Monitro Trais, mae ffynonellau data ychwanegol yn cynorthwyo'r ddealltwriaeth o drais, yn enwedig mewn perthynas â'r galw am wasanaeth.

“Rydym yn ymwybodol bod y data yn anghyflawn ar hyn o bryd mewn rhai ardaloedd ond oherwydd natur ddeinamig y sefyllfa (COVID-19), rydym yn awyddus i rannu'r adnodd hwn (Adroddiad Monitro Trais) at ddefnydd partneriaid.”
(Gohebiaeth e-bost gyda phartneriaid y VPU)

Nodwyd bod y dull cydweithredol o rannu data unigoleddig (sy'n galluogi cysylltu data) rhwng yr heddlu a'r gwasanaeth iechyd yn Ne Cymru yn gwella'r ddealltwriaeth o drais. Yn hollbwysig, mae'r gallu unigryw i gysylltu ffynonellau data lluosog wedi golygu bod modd adnabod digwyddiadau treisgar ar draws gwasanaethau, ac adnabod niwed cudd yn well (sydd wedi newid proffiliau trais hysbys presennol), gan ganiatáu i wasanaethau ddatblygu a thargedu gweithgareddau atal trais yn fwy manwl gywir (Gray et al, 2017). Nod cysylltu data yw gwella dealltwriaeth o gyfran y bobl sy'n defnyddio sawl gwasanaeth, a chyfran y bobl sy'n cael eu heffeithio gan drais nad ydynt yn dod i sylw'r gwasanaethau eraill. Er enghraifft, mae data o 2014-2016 yn awgrymu nad oedd yr heddlu'n gwybod am 59% o gleifion a gafodd eu derbyn i adrannau damweiniau ac achosion brys yn Ne Cymru oherwydd ymosodiadau (Gray et al, 2017). Nododd nifer o bartneriaid y VPU bwyntiau tebyg mewn perthynas â'r Adroddiadau Monitro Trais. Er enghraifft, yn ystod COVID-19, mae coladu sawl ffynhonnell ddata y tu hwnt i'r tair ffynhonnell ddata graidd, gan gynnwys data'r trydydd sector, wedi helpu i ddangos bod cymunedau'n dal i fod angen cefnogaeth ar gyfer rhai mathau o drais (e.e. cam-drin domestig), er gwaethaf y ffaith bod y tair ffynhonnell ddata graidd wedi dangos gostyngiadau yn y galw am wasanaeth.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg a oedd wedi darllen Adroddiad Monitro Trais yn cytuno bod y data a gyflwynir yn yr adroddiadau yn rhoi darlun cynrychioliadol o'r trais sy'n digwydd ledled Cymru (87.2%), a ffactorau risg (83.3%) ac amddiffynnol (72.5%). Mae'r adroddiadau'n darparu manylion unrhyw broblemau hysbys sy'n ymwneud â data, gan gynnwys cynrychiolaeth. Mae parhau i ddatblygu gallu'r WVSAS i wella dealltwriaeth o drais ledled Cymru wedi'i nodi fel maes blaenoriaeth allweddol i'r VPU. Yn hollbwysig, maent yn rhagweld y bydd lefel sylweddol o niwed cudd, ac yn cydnabod y gallai fod angen i lawer o sefydliadau wella sut mae data'n cael eu cipio er mwyn gwella gwyliadwriaeth trais ymhellach (VPU, 2021). Roedd rhai ymatebwyr i'r arolwg a chyfweleion hefyd yn cydnabod yr angen i sicrhau bod prosesau casglu data yn cipio gwybodaeth sy'n gallu cefnogi gweithgaredd atal trais ar draws y system gyfan (gan gynnwys y tu hwnt i ofynion data sefydliadol).

Barn partneriaid am gynyddu'r data sydd ar gael yn yr Adroddiadau Monitro Trais: *“Nid yw data sy'n cynnwys gwybodaeth am leoliad penodol (data Model Caerdydd) ar gael ledled Cymru - dim ond mewn rhai ardaloedd.”*
“Mae'r adroddiadau'n storfa amhrisiadwy o wybodaeth a data. Byddai cynnwys mwy o gyfranwyr o fudd i bob un ohonom drwy roi darlun ehangach cyfoes.”

Ymatebwyr i'r arolwg

Mae Adran 5 yn darparu manylion am ffyrdd y gellid datblygu ffynonellau data'r WVSAS ymhellach i wella cynrychiolaeth a sensitifrwyd y data.

3.6 Sefydlogrwydd a diogelwch

Er bod sefydlu'r VPU wedi galluogi ailsefydlu'r WVSAS, mae'r bwlch o 12 mis cyn hyn yn dangos yr angen am adnoddau parhaus i gynnal y system. Roedd mwyafrif (90.0%) y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cytuno bod y VPU yn hwyluso rhannu data amlasiantaeth at ddibenion atal trais ledled Cymru. Drwy'r VPU, mae amrywiol weithgareddau wedi'u gweithredu ac yn parhau i gynyddu sefydlogrwydd y system gan gynnwys:

- Cynnwys yr WVSAS ym model y VPU ac mewn dogfennau strategol, a blaenoriaethu er mwyn datblygu ac ehangu'r system (gan gynnwys adnoddau staff pwrpasol).
- Cyfarfod â phartneriaid i sicrhau bod data yn llywio penderfyniadau strategol a gweithredol, yn ogystal â hyrwyddo dull iechyd y cyhoedd o ymdrin â gwaith atal, a sefydlu fforymau amlasiantaeth i ddeall trais yn well, ac annog cydweithredu ar draws asiantaethau.
- Sefydlu/diweddaru cytundebau rhannu data. Mae cytundebau bellach ar waith sy'n ymwneud â holl heddluoedd Cymru a'r gwasanaeth ambiwlans. Mae cytundebau rhannu data gyda BIDC yn cael eu diweddarau; mae angen sefydlu cytundebau pellach ar draws byrddau iechyd eraill.
- Gweithredu Asesiadau Effaith Diogelu Data i nodi a lleihau unrhyw risgiau diogelu data yn sgil rhannu a phrosesu data personol.
- Datblygu a chwblhau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y VPU a'i haelodau cyswllt a'i phartneriaid. Pwrpas y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw ffurfioli'r broses o ddod â phartneriaid ynghyd sydd â'r nod cyffredin o fynd i'r afael â thrais, ei atal a'i lleihau. Bydd yn gweithredu fel cytundeb amlasiantaeth ar gyfer rhannu data a gwybodaeth am drais yn systematig, cefnogi dealltwriaeth wybodus o achosion trais, a nodi cyfleoedd i fynd i'r afael â'r achosion hyn (VPU, 2021).

Mae'r holl ddata a rennir yn cael eu storio ar weinydd diogel y GIG, sydd ar gael i ddadansoddwyr WVSAS yn unig. Er bod data adnabyddadwy yn cael ei rannu â'r WVSAS at ddibenion cysylltu data, ni rennir unrhyw ddata adnabyddadwy o'r system. Mae data ychwanegol yn yr Adroddiadau Monitro Trais yn ddata cyfanredol, ac felly nid oes angen cytundebau rhannu data ffurfiol. Drwy ddatblygu'r Hyb VIP, bydd y VPU yn sicrhau bod yr holl Asesiadau Effaith Diogelu Data a'r cytundebau rhannu data perthnasol yn cael eu cwblhau cyn dechrau rhannu'r data.

Mae'r Adroddiadau Monitro Trais wedi'u targedu at gynulleidfa broffesiynol ac nid ydynt ar gael i'r cyhoedd. Er nad oes meini prawf ffurfiol ar waith i benderfynu pwy all weld yr adroddiad, dim ond gyda gweithwyr proffesiynol sy'n hysbys i'r VPU, neu sydd â chyfeiriad e-bost sefydliadol swyddogol (y GIG, yr heddlu, Llywodraeth Cymru) y mae'r VPU

"Mae'r wybodaeth hon (a ddarperir yn yr Adroddiadau Monitro Trais) yn cael ei dosbarthu fel gwybodaeth swyddogol. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr holl wybodaeth a ymddiriedwyd i chi yn cael y gofal priodol ac yn cael ei diogelu'n briodol."
(Gohebiaeth e-bost gyda phartner y VPU)

"[Mae angen] eglurder ynglŷn â rhannu'r data ar draws partneriaethau, ydy hi'n iawn i wneud hynny, neu ai dim ond gyda'r sefydliad rwy'n ei gynrychioli y dylid ei rannu?" Ymatebwyr i'r arolwg

yn ei rannu⁸. Mae'r adroddiad yn cael ei ystyried yn 'Swyddogol', gyda'r cyfrifoldeb yn cael ei roi ar bartneriaid i sicrhau bod y data a ddarperir yn cael eu trin â gofal ac yn cael eu diogelu. Mae'r VPU yn cydnabod bod rhai partneriaid yn aildosbarthu'r adroddiadau o fewn eu rhwydweithiau, ac amlygwyd hyn hefyd gan rai cyfweleion a chyfranogwyr yr arolwg (nododd 6.3% o'r ymatebwyr eu bod wedi cael yr adroddiad gan rywun arall, nid yn uniongyrchol gan y VPU). Gofynnodd rhai cyfweleion ac ymatebwyr i'r arolwg am eglurder ynghylch pwy all weld yr adroddiadau ac a allant eu rhannu ac, os felly, sut.

⁸ Os bydd unigolyn nad oes ganddo gyfeiriad e-bost sefydliadol yn cofrestru (e.e. rhywun sydd â chyfrif Hotmail), bydd arweinydd cyfathrebu'r VPU yn cysylltu ag ef i ganfod y rhesymau dros fod eisiau cael mynediad i'r data, ac i sicrhau nad yw'n aelod o'r cyhoedd.

4. Defnyddioldeb yr WVSAS

4.1 Gwella'r ddealltwriaeth o drais a'r galw am wasanaethau

Dadansoddwyd a rhannwyd data o'r WVSAS i wella'r ddealltwriaeth o'r galw am wasanaethau a thrais drwy adroddiadau bob yn ail fis (ar gyfer partneriaid De Cymru), yr Adroddiadau Monitro Trais, Asesiad o Anghenion Strategol y VPU a chyhoeddiadau eraill (e.e. Gray et al, 2017; Snowdon et al, 2020).

Nod astudiaeth gan Gray et al (2017) oedd ymchwilio i weld a all rhannu a chysylltu data trais a gesglir yn rheolaidd ddarparu dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o drais, canfod patrymau o achosion nad ydynt yn cael eu hadrodd i'r heddlu a llywio datblygiad, gweithrediad a gwerthusiad mentrau atal trais yn well. Canfu'r astudiaeth nad oedd mwyafrif o dderbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys oherwydd trais (59.0%) yn hysbys i'r heddlu, gyda thrais ymhlith dynion ifanc a dieithriaid yn fwyaf tebygol o beidio â chael eu hadrodd i'r heddlu.

Defnyddiwyd data lleol a gyflwynwyd mewn adroddiadau bob yn ail fis ar gyfer De Cymru i ddeall natur, maint a ffactorau risg ar gyfer trais ar draws cymunedau, gan alluogi atebion lleol. Defnyddiwyd data (troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu, galwadau am ambiwlans a derbyniadau mewn adrannau damweiniau ac achosion brys) i lywio Asesiad o Anghenion Strategol y VPU. Defnyddiwyd dadansoddiad o ddata o Ionawr 2017-Ionawr 2020 i ddarparu dealltwriaeth o lefelau presennol y trais yn Ne Cymru, a sut mae hyn wedi cymharu â blynyddoedd blaenorol (VPU, 2021). Adroddwyd bod edrych ar y data o safbwynt cymdeithasol-ecolegol yn rhoi mewnwelediad unigryw i'r ffactorau a allai fod yn dylanwadu ar lefelau trais yng Nghymru, gan ganiatáu i'r VPU wneud cysylltiadau rhwng ffactorau risg hysbys ar gyfer trais i unigolion a chymunedau yn Ne Cymru. (VPU, 2021). Mae'r Adroddiadau Monitro Trais yn adeiladu ar yr Asesiad o Anghenion Strategol, gan alluogi monitro tueddiadau, achosion a chanlyniadau treisgar yn barhaus. Nododd mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg a oedd wedi darllen adroddiad eu bod yn ddefnyddiol ar gyfer⁹:

- Deall natur trais/y math o drais (97.6%);
- Mesur maint y trais (gan gynnwys tueddiadau) (92.9%);
- Nodi a disgrifio'r poblogaethau sydd fwyaf mewn perygl o ddioddef trais (83.3%);
- Nodi a disgrifio'r ardaloedd (e.e. trefi) sydd fwyaf mewn perygl o ddioddef trais (73.8%);
- Nodi a disgrifio'r ffactorau risg (a'r ffactorau amddiffynnol) ar gyfer trais (81.1%);
- Cynorthwyo gydag ymchwil a dadansoddi (81.0%);
- Eu cyfuno â data eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau (66.7%).

Nododd y cyfweleion hefyd eu bod wedi defnyddio'r Adroddiadau Monitro Trais i ychwanegu cyd-destun a'u cynorthwyo i ddeall y cymunedau y maent yn gweithio ynddynt. Mae'r data a gyflwynwyd wedi cynorthwyo pobl i ddeall effeithiau COVID-19 a mesurau iechyd y cyhoedd cysylltiedig ar y galw am wasanaethau, gan adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ymatebion brys presennol ac ymatebion brys yn y dyfodol. Mae'r VPU wedi rhannu data a'r hyn a ddysgwyd o'u hadroddiadau â phartneriaid

Mae'r Adroddiadau Monitro Trais wedi helpu i *"ddeall cyd-destun trais yng Nghymru sy'n gysylltiedig â meysydd plismona allweddol a meysydd polisi allweddol Llywodraeth Cymru fel ACEs a'r Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd."*
Ymatebwyr i'r arolwg

⁹ Opsiynau a ddewiswyd o restr a bennwyd ymlaen llaw.

rhyngwladol, drwy sesiynau briffio ysgrifenedig ar gyfer WHO Ewrop a phartneriaid eraill ac erthygl academiaidd a adolygwyd gan gymheiriaid (Snowdon et al, 2020).

At hynny, mae'r wylidwriaeth amser real yn galluogi'r VPU i gael darlun cyfoes o drais yng Nghymru, a nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg ar draws sawl ffynhonnell ddata. Er enghraifft, mae'r adroddiad diweddaraf (Chwefror 2021) yn dangos cynnydd yn nifer y bobl ifanc (18-24 oed a dan 18 oed) sy'n cael eu derbyn i adrannau damweiniau ac achosion brys yn Ne Cymru o ganlyniad i ymosodiadau yn eu cartrefi eu hunain/gan bartner neu gyn-bartneriaid (tuedd nad yw'n cael ei hadlewyrchu yn nata'r heddlu na llinellau cymorth). Amlygodd rhai cyfweleion werth yr adroddiadau o ran deall y darlun cenedlaethol o drais a nodi grwpiau 'cudd' sy'n profi trais (e.e. ymfudwyr a cheiswyr lloches; pobl hŷn) a datgelu mythau am drais. Er enghraifft, awgryma'r data fod pobl hŷn yn profi cam-drin domestig, ac mae ymfudwyr a cheiswyr lloches yn grŵp sydd mewn perygl o ddioddef trais; grwpiau na chânt eu cydnabod yn aml fel grwpiau allweddol sydd mewn perygl. Nododd y cyfweleion fod y gallu i adnabod niwed a thrais cudd nad yw'n cael ei adrodd i wasanaethau statudol yn amhrisiadwy, yn enwedig yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19.

“Ar lefel genedlaethol mae'n (WVSAS) ein helpu i osgoi gwneud datganiadau ysgubol (am natur a maint y trais) nad ydyn nhw o reidrwydd yn wir.”¹⁰⁴

4.2 Hyrwyddo atal trais a dull iechyd y cyhoedd

Daeth datblygiad cynnar yr WVSAS â phartneriaid ynghyd i ddatblygu dull iechyd cyhoeddus, a chynorthwyo rhannu a defnyddio data i atal trais. Roedd datblygiad y system yn cefnogi ystod eang o ymyriadau yn Ne Cymru (gweler Blwch 5). Blaenoriaeth allweddol i'r VPU yw ymgysylltu â phartneriaid i hyrwyddo dull iechyd y cyhoedd o atal trais, gan gynnwys drwy ddatblygu, defnyddio a hyrwyddo'r WVSAS. Nododd y cyfweleion sut yr oedd yr Adroddiadau Monitro Trais, a gynhyrchwyd gan y VPU, wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o rôl werthfawr data mewn dull iechyd y cyhoedd o atal trais, gyda phartneriaid yn archwilio fwyfwy y cyfraniad y gall eu data ei wneud i'r system, gan gynnwys adnabod grwpiau sydd mewn perygl, nad ydynt efallai'n bresennol mewn setiau data craidd sy'n bodoli eisoes.

Yn 2020, defnyddiodd y VPU ddata o'r WVSAS i amcangyfrif costau trais i'r system gofal iechyd, gan ddangos y baich y mae trais yn ei roi ar wasanaethau iechyd, yn ogystal â gwerth buddsoddi mewn gweithgaredd atal (Jones et al, 2020). Defnyddir tystiolaeth o'r fath gan y VPU i ddatblygu prosiectau cydweithredol gyda'r sector iechyd a phartneriaid eraill, ac i hyrwyddo ymyrraeth gynnar a gweithgareddau atal trais (gweler Blwch 4).

Mae datblygiad yr Adroddiadau Monitro Trais yn cefnogi partneriaid y VPU i hyrwyddo dulliau atal trais. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg fod yr adroddiadau'n ddefnyddiol ar gyfer dangos tystiolaeth o'r angen am ymyriadau (85.7%) a chyllid (64.3%). Amlygodd y rhai a gyfwelwyd sut yr oedd yr adroddiadau yn eu helpu i eiriol dros ganolbwyntio'n barhaus ar drais yn ystod y pandemig COVID-19, a chynyddu cefnogaeth partneriaid tuag at rannu data fel sail i waith atal trais. Dywedodd mwyafrif (88.1%) yr ymatebwyr fod yr adroddiadau'n ddefnyddiol ar gyfer gwella gwaith amlasiantaeth. At hynny, nododd llawer o'r ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn rhannu'r adroddiadau ag eraill, gan gynnwys eu cydweithwyr

“Felly o ran yr adroddiadau monitro cyffredinol, rydyn ni wedi sylweddoli eu bod nhw wir wedi gwella ein perthynas broffesiynol ag asiantaethau a sefydliadau o ran data a'r angen a'r awydd i sefydliadau eraill fod eisiau rhannu'r data hynny er mwyn gweld y darlun mwy, a chael gwell dealltwriaeth o drais.”¹¹

mewnol ac allanol, mewn cyfarfodydd amlasiantaeth ac mewn sesiynau briffio gyda Gweinidogion neu gynghorwyr lleol.

Mae'r VPU wedi defnyddio tystiolaeth o'r adroddiadau fel sail i erthyglau yn y cyfryngau ar drais mewn carchardai, pobl ifanc a gangiau, sut y mae'r rhai sy'n dyst i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn ymateb iddo. Rhennir gwybodaeth hefyd mewn amrywiol grwpiau i eiriol dros ddull iechyd cyhoeddus o atal trais, megis grŵp llywio arbenigol VRU (Swyddfa Gartref) a Rhwydwaith Atal Trais PHE, ac ar draws gweminarau, gweithdai a chynadleddau ledled y DU (a fynychir gan cynulleidfaoedd rhyngwladol/cenedlaethol).

Blwch 4: Amcangyfrif costau a chanlyniadau trais i'r system gofal iechyd yng Nghymru

Gall tystiolaeth economaidd ar faint ac effeithiau problem gynorthwyo llunwyr polisi i flaenoriaethu buddsoddi mewn materion iechyd cyhoeddus. Yn 2020, defnyddiodd y VPU ddata o'r WVSAS i amcangyfrif costau trais i'r system gofal iechyd, gan ddangos y baich y mae trais yn ei roi ar wasanaethau iechyd, yn ogystal â gwerth buddsoddi mewn gweithgaredd atal (Jones et al, 2020). Canfu'r astudiaeth fod trais yn gosod baich economaidd mawr ar y system gofal iechyd yng Nghymru, gydag amcangyfrif o £46.6 miliwn y flwyddyn yn cael ei wario ar fynd i'r afael â chanlyniadau tymor byr trais (y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2019). Roedd 84% o'r costau tymor byr yn gysylltiedig â mynd i'r afael â chanlyniadau trais rhyngbersonol. Amcangyfrifwyd bod dod i gysylltiad ag ACEs fel mesur procsi ar gyfer canlyniadau hirdymor trais yn gysylltiedig â chostau blynyddol o £158.8 miliwn (ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019). Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion allweddol ar gyfer cyflwyno'r achos dros fuddsoddi mewn atal trais, a defnyddiwyd tystiolaeth i ddatblygu prosiectau cydweithredol â'r sector iechyd. Mae hyn wedi helpu i gryfhau ymrwymiad gwasanaethau/byrddau iechyd i rannu data i'r hyb VIP, a chefnogi ei ddatblygiad; wedi galluogi'r VPU i rannu ei gwaith ar draws rhwydweithiau diogelu; a, darparu cyd-destun i brosiectau ymchwil a gwerthuso eraill.

4.3 Llywio ymatebion strategol a gweithgareddau atal trais

Mae data WVSAS yn sail i Asesiad o Anghenion Strategol, strategaeth a rhaglen waith y VPU. Nod gwyliadwriaeth trais "*amser real*" yw galluogi partneriaid y VPU i ysgogi mesurau atal wedi eu harwain gan ddata (Snowdon et al, 2020). Mae'r VPU yn defnyddio'r data yn yr Adroddiadau Monitro Trais i gysoni eu rhaglenni gwaith â'r dystiolaeth ddiweddaraf ar gyfer Cymru, a sicrhau bod materion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu harchwilio a bod gweithgaredd atal yn cael ei roi ar waith. Defnyddir yr adroddiadau gan y VPU i:

Gefnogi ymatebion strategol a gweithredol e.e.:

- Briffio Llywodraeth Cymru a bwrdd gweithredol ICC ar drais (e.e. effaith COVID-19).
- Llywio mewnbyn mewn cyfarfodydd partneriaeth amlasiantaeth (e.e. cyfarfodydd Portffolio CHTh De Cymru; Bwrdd Tactegol Trais Difrifol; Grŵp Aur Troseddau Cylllyll), a chefnogi partneriaid i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg fel digwyddiadau diweddar yn ymwneud â chylllyll yng Nghaerdydd a chynllunio ar gyfer adferiad o COVID-19 (gan gynnwys adfer economi'r nos ar ôl i gyfyngiadau COVID-19 gael eu codi).
- Cefnogi gweithredu strategaeth VAWDASV, defnyddio data i godi ymwybyddiaeth o VAWDASV, a nodi ardaloedd a phoblogaethau er mwyn targedu gweithgaredd atal.
- Hyrwyddo (drwy Dîm Atal Trais y VPU) 'GOFYN a GWEITHREDU' ymhlith staff adrannau damweiniau ac achosion brys i gynyddu datgeliadau o VAWDASV (oherwydd y lefelau isel o achosion o gam-drin domestig a adroddwyd i'r heddlu a chynnydd yn y galw am linellau cymorth).

Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y datgeliadau yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys (rhennir gwybodaeth berthnasol â phartneriaid i dynnu sylw at dueddiadau sy'n dod i'r amlwg).

- Gweminar i swyddogion heddlu mewn ysgolion ledled Cymru ar effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc, a phecyn adnoddau ar wasanaethau i ymgysylltu â nhw os oes ganddynt bryderon.
- Nodi bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth ac ystyried atebion gyda phartneriaid lleol (e.e. Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a darparwyr gwasanaeth y VPU); ac i ddosbarthu cyllid ychwanegol (e.e. cyllid Wrth Gefn ar gyfer y Gaeaf).

"Ydy hyn yn ymwneud â buddsoddi arian mewn llinellau cymorth [cam-drin domestig]? Neu ydy hyn yn ymwneud â chymhlethdod y galwadau sy'n dod i mewn, ydyn nhw'n cymryd mwy o amser, a oes rhywbeth arall yn digwydd? A dyna lle wnaethon ni gyrraedd mewn gwirionedd. Fe wnaeth [Adroddiadau Monitro Trais] helpu hefyd, i ddweud yn glir bod cwmp ym yr adroddiadau i'r heddlu ac roedd hynny o gymorth i ni ddweud 'nid yw hyn [adrodd] yn digwydd, am beth mae angen i ni boeni mewn perthynas â hyn'. Ac yna mae hynny'n hysbysu pawb sy'n mynd allan drwy ddweud 'mae angen i ni wneud mwy o ran y cyfathrebu, mae angen i ni sicrhau bod pobl yn gwybod bod yr heddlu'n dal i allu dod i mewn i'ch tŷ, nid yw COVID yn atal hynny'. Ac roedd hynny'n bwysig iawn ar y pryd, ac mae'r gwaith hwn wedi helpu i fod yn sail i ymateb y gwasanaeth, ar ben yr holl ddata eraill a oedd yn cael eu defnyddio, bod pobl yn cael gwir ymdeimlad o ba mor werthfawr y gallai hyn fod." 14

Llywio datblygiad, ffocws a dulliau targedu ymgyrchoedd cyfathrebu, e.e.:

- Ymgyrchoedd VAWDASV: 'Ddylai neb fod yn ofnus gartre'¹⁰, 16 diwrnod o weithredu.
- Datblygu pecyn gwybodaeth y Comisiynydd Pobl Hŷn.
- Ymgyrch troseddau cyllyll (radio/cyfryngau cymdeithasol), yn hyrwyddo cefnogaeth i blant/pobl ifanc.
- Adnoddau'r VPU ar wefan y VPU ar bynciau sy'n dod i'r amlwg (e.e. niwed ar-lein).

Datblygu blaenoriaethau ymchwil, cynnig am arian ymchwil a llywio gwaith ymchwil cenedlaethol, e.e.:

- Ailagor bywyd nos gan reoli COVID-19 ac atal trais (wedi'i ariannu gan y VPU; Janssen et al, 2020).
- Cael gafael ar gyllid i wneud gwaith ymchwil gyda Phrifysgol Caerwysg ar brofiadau'r rhai sy'n dyst i gam-drin domestig yn ystod pandemig COVID-19 (cyllid iechyd y boblogaeth ICC).
- Adolygiad systematig o'r hyn sy'n gweithio ar gyfer VAWDASV (cyllid Llywodraeth Cymru).
- Asesiad o Anghenion Strategol mewn perthynas ag effaith COVID ar blant a phobl ifanc sy'n profi trais ac ACEs (cyllid iechyd y boblogaeth ICC) (Newbury et al, 2020).
- Modelu effaith COVID ar lefelau trais yn y dyfodol (mewn cydweithrediad ag ICC).
- Ymchwil gan Plan UK ar hawliau merched yng Nghymru.
- Archwilio tueddiadau diweddar mewn derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys ymysg pobl ifanc oherwydd ymosodiadau yn eu cartref eu hunain/gan bartner neu gyn-bartneriaid (tuedd nas gwelwyd mewn ffynonellau data eraill), i ddeall beth mae hyn yn ei olygu (e.e. mae mwy o bobl ifanc yn profi niwed ond heb roi gwybod amdano) a sicrhau bod partneriaid yh VPU yn rhoi mesurau ar waith i atal trais pellach.

Nododd mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg bod yr adroddiadau'n ddefnyddiol ar gyfer:

¹⁰ <https://gov.wales/minister-launches-home-shouldnt-be-a-place-of-fear-campaign>

- Cefnogi dylunio a/neu dargedu dulliau atal trais (71.4%);
- Datblygu proffil problemau a/neu lywio dogfen bolisi strategol (71.4%);
- Bod yn sail i ddeunyddiau ymgysylltu, cyfathrebu a/neu hyrwyddo (71.4%).

Darparodd ambell ymatebydd i'r arolwg/cyfweliad enghreifftiau o'u defnydd o'r adroddiadau gan gynnwys:

- Llywio datblygiad adnoddau addysg a ddarperir ar draws ysgolion yng Nghymru (yn ymwneud â defnyddio sylweddau, diogelwch personol a diogelu, ac ymddygiad cymdeithasol a'r gymuned).
- Sail i roi hyfforddiant ar waith ar draws Bwrdd Iechyd.

At hynny, amlygodd y rhai a gyfwelwyd sut mae data wedi galluogi partneriaid i gael golwg fwy cyfannol ar drais, adnabod trais nad yw'n aml yn cael ei adrodd i'r heddlu (e.e. cam-drin domestig), ac adnabod grwpiau 'cudd' (e.e. pobl hŷn) sydd angen ymyrraeth wedi'i thargedu, a oedd yn arbennig o bwysig yn ystod y pandemig COVID-19.

"Gwelsom adroddiad [adroddiad yn Ne Cymru], ac fe laniodd ac fe wnaethon nhw sylweddoli bod 88% o'r data yma, yn yr ysbytai, yn yr adran achosion brys, nad yw'r heddlu'n ymwybodol ohonynt ac roedd hynny'n beth mawr iawn i gymunedau. Felly roedd modd i ni roi ymyriadau ar waith yn yr ardaloedd penodol hynny lle roedd roedd cyfradd yr achosion o drais domestig nad oeddent yn cael eu hadrodd i'r heddlu yn isel iawn. Ac yn sydyn, roedd pobl yn dechrau siarad ac roedd gwahanol ardaloedd yr heddlu yn siarad â'i gilydd ac yn holi beth oedd y data a sut y gallen nhw eu defnyddio? Felly fe wnaethon ni adfer enw da y data o ran gallu sbarduno ymyrraeth lwyddiannus iawn, ond yn bwysicach fyth, rwy'n credu ei fod wedi galluogi'r heddlu a phartneriaid yn yr ardaloedd hynny i ddiogelu mwy o bobl." 14

4.4 Monitro a gwerthuso dulliau a gweithgareddau atal trais

Nododd mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg fod yr Adroddiadau Monitro Trais yn ddefnyddiol ar gyfer:

- Monitro/gwerthuso effaith dulliau atal trais (73.8%);
- Monitro effeithiau COVID-19 ar lefelau trais (90.5%) ac atal trais (76.2%).

Manylodd un ymatebydd ar sut yr oedd ei sefydliad yn bwriadu integreiddio tystiolaeth o'r adroddiadau yn ei waith i archwilio effeithiolrwydd trefniadau diogelu ledled Cymru. Mae Blwch 5 yn darparu enghreifftiau o'r defnydd o ffynonellau data craidd yr WVSAS a nodwyd yn y gwerthusiad cychwynnol o'r WVSAS.

Blwch 5: Enghreifftiau o'r defnydd o ddata'r WVSAS ac adroddiadau bob deufis ledled De Cymru (2014-16)

Mae tystiolaeth o werthusiad cychwynnol yr WVSAS yn tynnu sylw at enghreifftiau o sut y defnyddiodd partneriaid amlasiantaethol lleol allbynnau'r WVSAS i lywio gweithgaredd atal trais (Barton et al, 2016). Er enghraifft:

- Defnyddiwyd tystiolaeth i sicrhau cynnydd yn narpariaeth Ambiwlans Sant Ioan ledled ardal un bwrdd iechyd yn ystod oriau brig economi'r nos er mwyn lleihau'r baich ar adrannau damweiniau ac achosion brys.
- Nodwyd cyfnodau brig ar gyfer trais bywyd nos mewn ardaloedd nad oedd yr heddlu'n gwybod amdanynt, gan arwain at weithredu cynlluniau swyddogion tacsis i leihau nifer yr unigolion ar y strydoedd.
- Roedd mapio data canfod lleoliad yn cefnogi'r heddlu i reoli ardaloedd ac adeiladau risg uchel. Defnyddiwyd tystiolaeth i gefnogi'r heddlu ac adolygiadau trwyddedu i wneud newidiadau i drwyddedau, gan gynnwys cwtogi ar oriau agor, adolygu capasiti, atal neu ddirymu trwyddedau. O ganlyniad, cyflwynodd nifer o safleoedd reolwyr newydd gan ailedrych ar hyfforddiant i'r staff.
- Defnyddiwyd data i fonitro a gwerthuso gweithgaredd atal trais (e.e. effeithiolrwydd y Pwynt Cymorth yn Abertawe, gyda data yn dangos gostyngiad yn nifer yr ambiwlansys a oedd yn cael eu galw i Ganol Dinas Abertawe yn ystod oriau brig economi'r nos).

4.5 Canlyniadau ac effeithiau ehangach

Dangosodd ambell gyfwelai fod yr Adroddiadau Monitro Trais wedi helpu eu sefydliadau, a phartneriaid eraill i gael mwy o ymwybyddiaeth o wasanaethau atal trais. I rai, adroddwyd bod hyn yn cynyddu llwybrau atgyfeirio ac ymyrraeth posibl ar gyfer aelodau'r gymuned y maent yn dod i gysylltiad â nhw/neu'n eu cefnogi. At hynny, rhoddodd yr adroddiadau well dealltwriaeth i rai partneriaid o'r data sydd ar gael a sut y gallent lywio dull iechyd y cyhoedd o atal trais. Nododd nifer o bartneriaid sut roedd gweld data partneriaid eraill yn eu helpu nhw a'u sefydliad i fyfyrion ar y data sydd ganddyn nhw a sut y gallai hyn wella'r adroddiadau ymhellach. Drwy gynhyrchu allbynnau academaidd a sesiynau briffio/cyflwyniadau ar WVSAS, mae gan WVSAS y potensial i gefnogi eiriolaeth fyd-eang ar gyfer datblygu dulliau casglu data a rhaglenni atal trais (Gray et al, 2017; Kendall, 2020; Snowdon et al, 2020).

5. Trawsnewid yr WVSAS i Gefnogi Gwaith Atal Trais yng Nghymru

5.1 Hwyluswyr allweddol

Systemau gwyliadwriaeth trais presennol a dulliau amlasiantaeth: Roedd Model Caerdydd, a ariannwyd yn wreiddiol drwy grant cyllid prosiectau y Swyddfa Gartref (Tackling Alcohol-related Street Crime [TASC]; Maguire a Nettleton, 2003), yn darparu sylfaen ar gyfer rhannu data rhwng Bwrdd Iechyd (adrannau damweiniau ac achosion brys) a phartneriaid amlasiantaeth lleol yng Nghaerdydd. Mae gwerthusiad o'r model (Florence et al, 2011, 2014), a datblygiadau systemau gwyliadwriaeth trais eraill ledled Lloegr (gweler Blwch 1) wedi codi ymwybyddiaeth o'r gallu i rannu data dienw rhwng y gwasanaeth iechyd a phartneriaid eraill, a defnyddioldeb data iechyd (a data amlasiantaeth) i lywio dull iechyd cyhoeddus o atal trais.

At hynny, mae hanes o ddulliau amlasiantaeth i fynd i'r afael â gwendidau ac achosion sylfaenol troseddu yn genedlaethol ledled Cymru (e.e. Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd; Hyb ACEs) yn cynnig sylfaen gref ar gyfer adeiladu Hyb VIP Cymru Gyfan.

Adnoddau a ddyrannwyd: Tynnodd y partneriaid sylw at y modd yr oedd amrywiol gyfleoedd cyllido'r Swyddfa Gartref wedi helpu i gefnogi gwaith datblygu, parhau ac ehangu'r WVSAS. Yn benodol, y prosiect TASC a arweiniodd at ddatblygu Model Caerdydd (2000), Cyllid Arloesi yn cefnogi datblygiad WVSAS De Cymru (2014-2016), a chyllid VRU a chyfraniadau ychwanegol gan bartneriaid Cymru (o 2019 hyd yma), gan gefnogi parhad y model a'i ehangu ledled Cymru.

Deddfwriaeth: Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015) yn darparu sylfaen gref ar gyfer datblygu Hyb VIP Cymru Gyfan. Canolbwyntiodd y Ddeddf ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cymryd golwg hirdymor, yn gweithio'n fwy effeithiol gyda chymunedau a gwasanaethau eraill, ac yn darparu dull mwy cydgyssylltiedig o atal problemau. Er y nodwyd bod Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 yn borth ar gyfer gwaith amlasiantaeth a rhannu data, teimlwyd bod rhannu data yn parhau i fod yn broblem mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Fodd bynnag, nodwyd bod y Bil Trais Difrifol arfaethedig yn offeryn allweddol i gefnogi ehangu'r model a rhannu data ledled Cymru, yn enwedig gan y bydd yn gosod dyletswydd ar gyrff y sector cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â thrais difrifol, ac i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol gael strategaeth atal trais difrifol (Senedd y DU, 2019). Nodwyd bod GDPR yn aml yn achosi rhwystrau o ran rhannu data, er gwaethaf y gofynion cyfreithiol a'r canllawiau presennol sy'n caniatáu ac yn hyrwyddo rhannu data er mwyn atal trais. Fodd bynnag, nododd y partneriaid hefyd ei bod yn ymddangos bod rhwystrau o'r fath yn lleihau o ganlyniad i'r pandemig, lle mae partneriaid wrthi'n ceisio rhannu gwybodaeth i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed a diwallu eu hanghenion, yn enwedig ar lefel gymunedol. Mae'r Weledigaeth Blismona ar gyfer 2025¹¹ yn eiriol dros blismona'n seiliedig ar dystiolaeth a data ar lefel gymunedol/leol, y nodwyd bod ganddo'r potensial i gefnogi datblygu Hyb VIP Cymru Gyfan.

Ymgorffori'r WVSAS yn y VPU: Mae ymgorffori'r WVSAS yn y VPU wedi hwyluso ei datblygiad mewn sawl ffordd. Drwy ymgorffori'r WVSAS ar draws model gweithredu a rhaglenni gwaith y VPU, mae

¹¹ <https://www.npcc.police.uk/documents/Policing%20Vision.pdf>

partneriaid y VPU yn gallu hyrwyddo'r system a'i nodau a'i hamcanion, a chefnogi partneriaid i rannu a chael mynediad at wybodaeth, a'i defnyddio i atal trais. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi cynaliadwyedd y system. Mae secondiad staff yn y VPU sydd â phrofiad blaenorol o'r WVSAS wedi cynorthwyo i ailsefydlu a datblygu'r uned. Amlygwyd Adroddiadau Monitro Trais fel offeryn allweddol i ddangos y gall partneriaid rannu data, ac y gall rhannu data yn y fath fodd ychwanegu gwerth drwy nodi materion nad oedd partneriaid yn ymwybodol ohonynt, a helpu i godi cwestiynau pellach am ddealltwriaeth leol a chenedlaethol o'r 'gwir ddarlun o drais'.

"Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod beth fyddai fwyaf defnyddiol iddynt nes eu bod wedi ei gael. Bu sôn am drais a gwyliadwriaeth ers amser maith." ¹⁰⁴

Datblygu perthnasoedd a hwyluso dealltwriaeth o ansawdd a defnydd ymarferol y data: Ystyriwyd bod datblygu perthnasoedd gyda phartneriaid y VPU a rhyngddynt yn hanfodol i ddatblygu'r WVSAS. Mae hyn wedi helpu i hwyluso rhannu data a dealltwriaeth partneriaid o'r data sydd ar gael a sut y gellir eu defnyddio i atal trais, ynghyd â chyfyngiadau'r data. Nodwyd bod sicrhau bod partneriaid yn cael gwybodaeth am ansawdd a defnydd data yn hanfodol i gynnal system wyliadwriaeth o ansawdd uchel o'r natur hon.

"Dangos beth rydyn ni'n mynd i ddefnyddio'r data ar ei gyfer, ac rwy'n meddwl weithiau gyda llawer o sefydliadau, maen nhw'n gallu gweld pam rydych chi eisiau'r data, ond mae angen nodi defnydd ymarferol ar eu cyfer, er mwyn i'r geiniog ddisgyn." ¹⁴

5.2 Meysydd i ehangu arnynt

5.2.1 Casglu a rhannu data drwy'r WVSAS

Mynediad at ddata Byrddau Iechyd ledled Cymru: Ar hyn o bryd dim ond ar gyfer De Cymru y mae data Byrddau Iechyd ar gael, sy'n golygu nad yw'r data'n darparu darlun o Gymru Gyfan. Amlygodd yr adborth gan ymatebwyr i'r arolwg a'r cyfweiliad bwysigrwydd sicrhau bod modd i Gymru gyfan gael mynediad at ddata adrannau damweiniau ac achosion brys a'u defnyddio, a lle bo hynny'n ymarferol at ffynonellau data iechyd eraill (e.e. data meddygon teulu).

Gwella ansawdd/y gallu i gymharu data lefel gwasanaeth: Mae gwerthusiad cychwynnol o'r WVSAS (Barton et al, 2016) a'r canfyddiadau presennol yn tynnu sylw at bwysigrwydd hyrwyddo casglu a chofnodi data cyson a chymaradwy o ansawdd uchel o fewn gwasanaethau unigol (e.e. damweiniau ac achosion brys, yr heddlu).

Mae'r Adroddiadau Monitro Trais yn darparu enghreifftiau o feysydd lle mae angen datblygu ansawdd y data, neu sut y gall prosesau cofnodi data effeithio ar ansawdd y data. Er enghraifft, mae amrywiadau o ran mynediad at ddata ar draws heddluoedd ac nid yw cofnodi alcohol fel ffactor mewn trosedd yn arferol, ond yn hytrach mae'n dibynnu ar swyddogion yr heddlu/staff yn tynnu sylw at alcohol fel ffactor wrth gofnodi troseddau. Mae'r adroddiadau'n cydnabod lle na all y VPU gadarnhau cysondeb y data oherwydd bylchau hysbys

"Nid yw data adrannau damweiniau ac achosion brys ar gael o rai adrannau yng Nghymru. Dylid eu casglu fel mater o drefn ym mhob adran ddamweiniau. Mae natur dameidiog y data hyn yn golygu na ellir gweithredu dull iechyd y cyhoedd o atal trais ym mhob man."
"Mae data iechyd yn rhywbeth y mae fy Uned Reoli Sylfaenol wedi bod yn chwilio amdano ers cryn amser ac mae hyn yn dechrau cael ei weld nawr sy'n ddefnyddiol iawn o ran y darlun llawnach."

Ymatebwyr i'r arolwg

yn y setiau data a ddarperir, ac felly dim ond fel canllaw y darperir rhywfaint o ddata. Nododd amrywiol gyfweleion bwysigrwydd adolygu ansawdd y data a rhannu'r wybodaeth hon gyda darparwyr a defnyddwyr y data.

Ymchwilio i gyfraniad posibl data partneriaid y VPU: Amlygodd nifer o'r ymatebwyr i'r arolwg a'r cyfweleion werth archwilio setiau data presennol partneriaid i weld a allent ychwanegu gwerth at yr WVSAS, gyda llawer o ymatebwyr hefyd yn mynegi parodrwydd i rannu data. Nododd y cyfweleion y gallai fod yn ymarferol ehangu proses casglu data presennol partner y tu hwnt i'w gofynion sefydliadol, er mwyn cefnogi gweithgaredd atal trais ledled Cymru. Er enghraifft, sicrhau bod partneriaid yn casglu data i gynorthwyo gydag adnabod grwpiau/cymunedau sydd mewn perygl, neu i ychwanegu cyd-destun (e.e. casglu data ar ddefnyddio alcohol a sylweddau), i ddarparu darlun mwy cyflawn o drais. Nodwyd bod gan ffynonellau data sy'n disgrifio'r gymuned (e.e. data trwyddedu, amddifadedd, demograffeg gymdeithasol, tai, gofal cymdeithasol, addysg) y potensial i lywio'r broses o ddarparu ymyrraeth.

*"Nid oedd hynny am nad oedd pobl yn fodlon; mae'n ymwneud â goresgyn y rhwystrau rhwng asiantaethau, ar lefel sylfaenol iawn, yn ymwneud â llywodraethu gwybodaeth mewn perthynas â a rhannu'r data."*¹¹ⁱ

5.2.2 Dadansoddiadau ac allbynnau data

Cynhyrchu dadansoddiadau ar lefel leol (a chenedlaethol): Yn ystod datblygiad cychwynnol yr WVSAS, cydnabuwyd bod plismona yn wasanaeth a ddarperir yn lleol; felly datblygwyd a chyflwynwyd system o gyflwyno adroddiadau gwyliadwriaeth trais lleol bob deufis mewn Grwpiau Atal Trais Amlasiantaeth lleol (Barton et al, 2016). Mae Asesiad o Anghenion Strategol VPUs yn argymhell defnyddio data o'r WVSAS i ddatblygu proffiliau cymunedol manwl ar gyfer ardaloedd â phroblem ddifrifol gyda thrais ieuenctid (VPU, 2020b). Amlygodd adborth gan yr ymatebwyr i'r arolwg a'r cyfweleion bwysigrwydd cyflwyno data WVSAS ar lefelau cenedlaethol a lleol (e.e. rhanbarthol/Partneriaeth Diogelwch Cymuned/uned reoli sylfaenol). Ystyriwyd bod sicrhau bod data ar gael ar lefel leol yn hanfodol i sicrhau y gellid rhoi gweithgareddau ar waith i ddiwallu anghenion y gymuned.

"Yr adborth yr oeddwn yn ei gael yn weddol gyson gan (y Comisiynydd Heddlu a Throsedd/heddlu) ar y cynnyrch gwyliadwriaeth trais oedd ei fod yn ddiddorol, ond ni allent weld ei fod yn berthnasol yn lleol, ni allent weld sut y gallent ddefnyddio'r ddogfen fel sail i gamau gweithredu lleol."^{1D1}

"Gallai adnabod tueddiadau mewn rhannau penodol o drefi, dinasoedd ganiatáu ymyriadau penodol wedi'u targedu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn cymunedau."

"Os nodir bod trais mewn ardal benodol, nodir yr ystod oedran, yna gall sefydliadau amlasiantaeth/cymorth gyflwyno camau gweithredu. Gallai hyn fod drwy ysgolion, canolfannau gwaith, gwaith cymorth, gwasanaethau cymunedol, grwpiau crefyddol, ardaloedd lle mae nifer fawr o bobl/presenoldeb mawr i ddarparu dull allgymorth." Ymatebwyr i'r arolwg

Cynhyrchu allbynnau amrywiol i ddiwallu ystod eang o anghenion partneriaid: Cafodd yr Adroddiadau Monitro Trais eu croesawu'n unfrydol gan bartneriaid y VPU (gweler Adrannau 3.1 a 3.3). Fodd bynnag, awgrymodd llawer o bartneriaid hefyd fod yr adroddiadau cyfredol yn rhy drwm a mawr, gyda "gormod o wybodaeth ar bob sleid" ond nid oeddent ychwaith yn ddigon manwl i alluogi partneriaid i ddefnyddio'r wybodaeth i fod yn sail i weithgareddau atal lleol.

"A'r broblem sydd gennych yw bod yr adroddiad gwyliadwriaeth yn ceisio bod yn bopeth i bawb. Ac felly mae'n dod yn rhy fawr i bawb, a dweud y gwir, ac mae'n dod yn rhywbeth nad yw mor werthfawr â hynny mewn gwirionedd. Pe baech chi'n rhywun a oedd yn gosod cyfeiriad polisi strategol ar gyfer Cymru, efallai y byddech chi'n ei hystyried yn ddogfen ddefnyddiol. Ond o ran ble mae'n mynd i gael yr effaith fwyaf, sef datrys problemau lleol, rhanbarthol, ond hefyd comisiynu gwasanaethau lleol a rhanbarthol neu gynllunio gwasanaethau, y math yna o beth. Mae'n llawer rhy eang. Ac mae'r data y mae'n eu defnyddio yn dal i ganolbwyntio ar symptomau yn hytrach nag achosion." ID1

Er bod mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg wedi awgrymu y dylid cynhyrchu'r adroddiadau yn fisol, amlygodd rhai cyfweleion nad oes angen adroddiadau misol yn eu fformat cyfredol ar gyfer partneriaid lleol. Awgrymodd llawer o'r ymatebwyr a chyfweleion yr arolwg y gellid newid fformat yr adroddiadau i ddiwallu'r ystod eang o anghenion y partneriaid. Roedd enghreifftiau o'r fformatau a awgrymwyd ar gyfer allbynnau WVSAS yn cynnwys:

- Briff 7 munud, sy'n darparu mynediad cyflym i negeseuon allweddol (gan gydnabod y cyfyngiadau amser ar bartneriaid i ddirnad y wybodaeth yn yr adroddiadau ac ystyried eu goblygiadau mewn ffordd ystyrlon).
- Adroddiadau chwarterol (yn hytrach na misol) yn dangos tueddiadau a grwpiau a chymunedau sydd mewn perygl a ffactorau amddiffynnol (ar lefel genedlaethol a lleol, ac yn cymharu ardaloedd ledled Cymru), gyda negeseuon ac argymhellion allweddol ar gyfer gweithredu ar lefelau cenedlaethol a lleol.
- Adroddiadau thema ar bynciau allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r data (gyda data ac argymhellion yn cael eu cyflwyno ar lefelau cenedlaethol a lleol).
- Proffiliau o broblemau lleol, gan ddefnyddio ffynonellau data amrywiol (gan gynnwys data ansoddol yn tynnu sylw at brofiadau byw), yn canolbwyntio ar ffactorau achosol ac atebion posibl. Nododd partneriaid nad rôl tîm y VPU o reidrwydd yw cynhyrchu adroddiadau o'r fath, ond yn hytrach dadansoddwyr lleol/rhanbarthol. Fodd bynnag, nodwyd bod y ffaith bod yr adnoddau dadansoddol lleol yn gyfyngedig yn rhwystr, ac felly roedd partneriaid yn croesawu cefnogaeth y VPU gyda dadansoddiadau o'r fath a dehongli data.

"Rwy'n credu y gallai'r data a ddarperir gael ei groesgyfeirio â data sefydliadol a'i gymharu os yw'r themâu a nodir yn debyg."

"Ar hyn o bryd mae gormod o ffynonellau data. Yn fy marn i dylid eu rhesymoli i gynnwys dim ond data sy'n berthnasol i waith atal."

"Rwy'n credu weithiau bod staff eisiau'r negeseuon a'r themâu allweddol a sut y gall hynny effeithio ar ymarfer."

"Adroddiadau rhagorol ond mae angen iddynt nodi sut rydyn ni'n cael y wybodaeth allweddol yn yr adroddiadau hyn i ymarferwyr ar lawr gwlad."

Ymatebwyr i'r arolwg

Cynyddu dealltwriaeth o ffynonellau data a'u defnyddioldeb: Awgrymodd yr ymatebwyr i'r arolwg a'r cyfweiliad fod angen gwybodaeth bellach ar sut i ddehongli pob un o'r gwahanol fathau o ffynonellau data, a dibynadwyedd pob ffynhonnell ddata.

"Oherwydd bod yr adroddiadau'n cynnwys lluo o wahanol fathau o ddata ac nad oes unrhyw arwydd o ba ddata sy'n cynrychioli mesur dibynadwy, maen nhw'n anodd eu dehongli. Er enghraifft, rhoddir nifer y galwadau i linellau cymorth ond dim arwydd o ddibynadwyedd data o'r fath fel mesur o drais."

Ymatebwyr i'r arolwg

Awgrymwyd datblygu gwahanol allbynnau fel ffordd bosibl i alluogi partneriaid i nodi anghenion dadansoddi data ac allbwn, gan gydnabod yr anhawster y gallai partneriaid ei gael o ran deall pa ddata sydd ar gael a sut y gellir eu dadansoddi i lywio gweithgaredd atal.

"Mae angen i bobl weld y wybodaeth a'r naratif." ¹⁴

"Felly mae'n ymwneud ag ... ennill calonnau a meddyliau mewn gwirionedd, gan ddangos gwerth dadansoddiad da?" ¹⁰¹

Adolygu'n rheolaidd fynediad partneriaid i allbynnau a

defnydd o ddata WMVAS: Mae tystiolaeth o'r gwerthusiad gwreiddiol (Barton et al, 2016) yn awgrymu nad yw bob amser yn glir pwy sy'n cael mynediad at allbynnau'r WVSAS, neu a ydynt yn defnyddio'r data/allbynnau a sut y maent yn gwneud hynny. Pan gyflwynwyd yr Adroddiadau Monitro Trais i ddechrau (Ebrill-Medi), dosbarthwyd yr adroddiadau drwy system bostio, a oedd yn darparu dadansoddeg ar gyrraedd yr adroddiadau a'r defnydd ohonynt; fodd bynnag, nid oedd hynny'n hygyrch i'r holl bartneriaid (gydag adroddiadau'n cael eu blocio gan waliau tân y system TG, yn enwedig systemau TG yr heddlu). At hynny, nid oedd modd defnyddio'r system bostio gyda chyfeiriadau e-bost y GIG, ac felly roedd yn rhaid i'r tîm VPU greu cyfeiriad e-bost Gmail i'w galluogi i ddosbarthu'r adroddiadau drwy'r system bostio hon, a achosodd rai pryderon i bartneriaid y VPU. Felly dychwelodd y VPU i ddosbarthu'r adroddiad o gyfeiriad e-bost y VPU/iechyd cyhoeddus, gyda dolenni wedi'u hymgorffori yn y neges er mwyn cael mynediad at yr adroddiadau. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn yn darparu'r ddadansoddeg i ganiatáu i'r Uned fonitro cyrraedd a hygyrchedd yr adroddiadau fel mater o drefn, a defnyddio'r data hynny i lywio'r broses o gyflwyno'r Adroddiadau Monitro Trais yn y dyfodol.

5.2.3 Trawsnewid y system gyfan i wella'r defnydd o ddata i atal trais

Eiriol dros system Cymru gyfan a chysoni blaenoriaethau ar draws meysydd/rhaglenni gwaith: Amlygodd y rhai a gyfwelwyd fod angen i'r VPU a'i phartneriaid barhau i eiriol dros system WVSAS ar gyfer Cymru Gyfan. Nodwyd bod adnabod a chodi ymwybyddiaeth o sut mae nodau ac amcanion y VPU a WVSAS yn cyd-fynd â blaenoriaethau llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol, a blaenoriaethau sefydliadau

"Daw mwyafrif helaeth yr arian y maen nhw (VPU) yn ei gael o'r Swyddfa Gartref ac mae wedi'i dargedu'n benodol iawn tuag at Gaerdydd ac Abertawe...Ond er mwyn dadlau'r achos dros system Cymru gyfan, mae'n golygu bod yn rhaid i'r VPU weithio'n galed i ymgysylltu â'r Gogledd, y Gorllewin a'r canol." ¹⁰¹

partner, yn gam allweddol i ennyn cefnogaeth partneriaid i system Cymru Gyfan, a sicrhau ei bod wedi'i hymgorffori ar draws y system gyfan. Rôl allweddol a nodwyd ar gyfer y VPU oedd sicrhau ei bod yn gallu dangos gwerth yr WVSAS i wahanol bartneriaid y VPU, ar lefel genedlaethol a lleol, a chefnogi partneriaid i gysoni eu blaenoriaethau, neu ymestyn blaenoriaethau lle roedd hynny'n berthnasol ac yn ymarferol. Amlygodd un ymatebydd i'r arolwg a oedd yn cynrychioli partneriaeth

genedlaethol sut roedd y bartneriaeth yn datblygu Fframwaith Diogelu Perfformiad Cymru Gyfan ar hyn o bryd, a'i fod yn rhagweld y byddai hyn yn ymgorffori dangosyddion o'r WVSAS, ac i'r gwrthwyneb.

Amlygwyd bod datblygu Strategaeth Trais Difrifol ar gyfer Cymru ac ar gyfer pob ardal leol (gyda chefnogaeth y Mesur Trais Difrifol arfaethedig) yn allweddol i gefnogi WVSAS Cymru Gyfan. Nododd y rhai a gyfwelwyd enghreifftiau o ddatblygiadau system gyfan a allai gefnogi'r gwaith o ehangu'r WVSAS, megis datblygu Strategaeth Ddigidol newydd¹², cynlluniau i ddatblygu 'set ddata galwadau brys' gyffredin ar draws gwasanaethau golau glas, a'r system SAIL (Cyswllt Gwybodaeth Ddienw Ddiogel)¹³.

Hyrwyddo ymwybyddiaeth o gylch gwaith yr WVSAS, a rolau tîm craidd a phartneriaid y VPU: At ei gilydd, roedd y cyfweleion a'r ymatebwyr i'r arolwg yn gwybod beth oedd nod ac amcanion craidd yr WVSAS. Nododd rhai cyfweleion bwysigrwydd parhau i godi ymwybyddiaeth o'r model, gan ddangos ei ddull iechyd y cyhoedd system gyfan o fynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais. Nododd un partner bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o fudd y model y tu hwnt i ddatblygiadau cynharach o ran rhannu data ar gyfer atal trais (e.e. Model Caerdydd). Cydnabuwyd bod partneriaid ehangach y VPU (y tu hwnt i'r tîm craidd) yn hanfodol i ddatblygiad, ymgorfforiad a chynaliadwyedd WVSAS Cymru Gyfan. Er bod amryw o bartneriaid VPU wrthi'n cefnogi'r WVSAS, amlygwyd bod datblygiadau pellach ar draws y system gyfan (gweler uchod) a chynnydd yng ngallu partneriaid i gefnogi cyflawni cylch gwaith yr WVSAS (gweler isod) yn hanfodol i lwyddiant yr WVSAS.

Meithrin gallu ar draws partneriaethau: Amlygodd y rhai a gyfwelwyd yr angen i feithrin gallu ar draws partneriaid, yn enwedig partneriaethau diogelwch cymunedol i alluogi gweithredu gweithgaredd atal trais yn llwyddiannus ar lefel leol/rhanbarthol. Yn hollbwysig, mae angen adnoddau i alluogi partneriaethau lleol i dderbyn, dadansoddi, dehongli a gweithredu ar ddata amlasiantaeth mewn ffordd "ddilys a dibynadwy". Yn yr un modd, mae gan bartneriaid lleol ran hanfodol i'w chwarae o ran gwella rhannu data ac ansawdd ar draws gwasanaethau, a chynorthwyo gyda dehongli data yn seiliedig ar wybodaeth leol. Cydnabuwyd bod y gostyngiad mewn capasiti ar

"Rydyn ni wedi mynd ati i ddatblygu rhywbeth (Adroddiadau Monitro Trais) ar adeg lle nad yw pobl wedi cael eu hysgogi i ymateb iddo (trais)." 14

"Nid wyf yn credu ei fod wedi symud ymlaen yn sylweddol o'r dyddiau hynny (h.y. Model Caerdydd). Ac mae hynny oherwydd sawl ffactor. Ond yn anad dim, yn amlwg, cyni yn y sector cyhoeddus. Felly o 2010 ymlaen, cafodd llawer o ddadansoddwyr eu tynnu o'r system blismona a dim ond un enghraifft yw De Cymru. Ond mae tua thraean o'r dadansoddwyr oedd ganddyn nhw ar un adeg wedi gadael bellach, ac mae'r rhan fwyaf o'r dadansoddwyr hynny yn cael eu defnyddio i ddadansoddi gwaith achos, yn hytrach na dadansoddi strategol, a meddwl ynghylch â datrys problemau. Diflannodd dadansoddwyr llywodraeth leol, bron pob dadansoddwr rwy'n ei adnabod, ac felly mae gennych ddadansoddwyr perfformiad o hyd, felly er enghraifft, mewn adrannau addysg, y math yna o beth, ond unwaith eto, dyw e ddim yn rhywbeth sy'n cael digon o adnoddau mewn llywodraeth leol. Ac, ym maes iechyd, mae'n ddarlun eithaf cymysg. Felly mewn ffordd, rydyn ni ymhellach ar ei hôl hi nawr nag yr oeddem ni yn 2010/2011." D1

¹² <https://gov.wales/digital-wales>

¹³ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/952/Maximising%20Use%20of%20Routine%20Data%20for%20Research%202012%2012%2003%20SAIL%20GP%20Sign%20Up%20pack-%20FINAL%20VERSION.pdf>

draws partneriaethau diogelwch cymunedol dros y degawd diwethaf wedi arwain at fwlch mewn capasiti dadansoddol. Roedd hyn, ynghyd â llawer o bartneriaid sy'n cael eu dargyfeirio ar hyn o bryd i weithgareddau sy'n gysylltiedig â COVID-19, yn golygu bod yr Adroddiadau Monitro Trais wedi'u cynhyrchu ar adeg pan nad oes gan bartneriaid y capasiti i ymateb yn llawn iddynt, ar lefel leol neu hyd yn oed ar lefel genedlaethol, er gwaethaf y ffaith bod partneriaid wedi buddsoddi yn y dull gweithredu.

Ystyriwyd bod sefydlu'r VPU ac ailsefydlu'r WVSAS yn ganolog i ddatblygu system Cymru Gyfan. Yn yr un modd, nodwyd bod gan Raglen Cymunedau Mwy Diogel Cymru (gweler Blwch 6), a ddatblygwyd yn dilyn adolygiad o ddiogelwch cymunedol ledled Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017) y potensial i gyflawni'r datblygiadau mawr eu hangen o ran capasiti y manylir arnynt uchod, ac i gefnogi gweithredu WVSAS Cymru Gyfan. Yn hollbwysig, drwy fuddsoddi mewn gallu dadansoddol (e.e. heddlu/Uned Reoli Sylfaenol/Partneriaeth Diogelwch Cymunedol), a symbylu Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i ystyried sut y gallant ddefnyddio data i lywio gweithgareddau lleol, a sicrhau bod partneriaid lleol *"mewn sefyllfa i ddefnyddio'r data"*. Yn 2020/21, mae'r VPU wedi dechrau gweithio'n agos gyda'r Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel, a bydd hyn yn parhau yn ystod 2021/22, drwy aelodaeth o fyrddau a chysylltiad parhaus â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol, i ddatblygu cynigion cydweithredol i alluogi WVSAS Cymru Gyfan i gael ei sefydlu, sy'n cefnogi anghenion partneriaid a chymunedau cenedlaethol a lleol. Nod gwaith o'r fath yw datblygu dealltwriaeth o'r data sydd ar gael a sut y gall lywio'r gwaith atal trais (a'r meysydd na all eu cefnogi). At hynny, mae'n anelu at nodi anghenion data a dadansoddi partneriaid lleol, a'r strwythurau llywodraethu a phartneriaethau sy'n ofynnol i gynorthwyo gweithredu ar lefel leol, gan gydnabod *"nad yw pawb mewn sefyllfa i dderbyn a defnyddio'r data"* ar hyn o bryd. Nodwyd bod effeithiau cyfredol COVID-19 ar gapasiti partneriaid yn gohirio ehangu'r WVSAS ledled Cymru.

*"Felly mae tynnu hyn i gyd at ei gilydd yn dasg enfawr. Ac mae'n teimlo fel bod COVID wedi ein harafu rywfaint, oherwydd mae'n anodd iawn, achos mae cymaint o bobl yn gweithio ar bethau eraill."*¹⁴

Bwrdd/grwpiau atal trais lleol: Roedd cred gyson ymysg partneriaid bod angen dadansoddi data ar lefel leol er mwyn galluogi partneriaid i ddefnyddio'r data mewn gweithgaredd atal wedi'i dargedu. Fodd bynnag, gyda chysylltiad agos â meithrin gallu, cododd nifer o'r cyfweleion bwysigrwydd cael dadansoddwyr lleol a grwpiau amlasiantaeth a allai gael mynediad at y data, eu dehongli a gweithredu arnynt. Gallai hyn fod drwy ddatblygu byrddau/grwpiau atal trais amlasiantaeth newydd neu drwy adeiladu ar bartneriaethau presennol sy'n gweithio ar ddulliau tebyg (e.e. diogelu cyd-destunol) ac felly maent eisoes yn dechrau gweithio ar y cyd i ddeall materion lleol mewn modd cyfannol, a rhannu a defnyddio data partneriaid.

*"Os nad oes gennych unrhyw un ar lawr gwlad i hyrwyddo'r gwaith hwnnw, bydd (data gwyliadwriaeth trais) yn mynd i'r cyfarfodydd, yn glanio yn y cyfarfodydd, ac yna bydd yn cael ei golli felly mae arnom angen y bobl hynny ar lawr gwlad sydd wedi'u hargyhoeddi, sy'n hyrwyddwyr go iawn dros (atal) trais."*¹⁴

Galluogi mynediad systematig at ddata, ar lefelau lleol a chenedlaethol: Yn 2020/21, comisiynodd y VPU y gwaith o ddatblygu hyb VIP ar-lein, i ategu'r system bresennol. Mae'r hyb VIP yn cal ei ddatblygu fel hyb data pwrpasol a fydd yn storfa ar gyfer data amlasiantaeth, gan ddarparu platfform digidol i ganiatáu agedu a chyflwyno gwahanol ffynonellau data ar drais gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau gan gynnwys graffiau, siartiau, tablau, adroddiadau a mapiau rhyngweithiol ar draws ardaloedd lleol a'r ôl troed cenedlaethol. Bydd yr hyb VIP yn galluogi defnyddwyr i addasu sut mae'r data'n cael eu cyflwyno a bydd yn hygyrch i sefydliadau perthnasol i'w defnyddio i atal trais. Bydd yr

hyb VIP yn cynnwys y tair ffynhonnell ddata graidd sydd wedi'u cynnwys yn WVSAS ar hyn o bryd: data'r heddlu; data derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys oherwydd ymosodiadau; a data galwadau am ambiwlans yn gysylltiedig â thrais. Mae'r VRU hefyd yn ymchwilio i gynnwys setiau data ychwanegol, e.e.

- Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau
- Dangosfwrdd Trais Difrifol ymysg Ieuenctid y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid;
- Data Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol;
- IRISi - data trais ar sail rhywedd;
- Data gwaharddiadau o ysgolion;
- Data iechyd ehangach (data meddygon teulu; Set Ddata Gofal Brys [ECDS]);
- Data diogelu;
- Data Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM;
- Data derbyniadau i'r ysbyty;
- Data llinell gymorth y trydydd sector;
- Data sy'n cyflwyno'r boblogaeth a phenderfynyddion ehangach trais (e.e. oedran, rhyw, ethnigrwydd ac amddifadedd).

Lle bo hynny'n ymarferol, bydd yr hyb yn cynnwys gwybodaeth am weithgaredd atal trais lleol ac yn cyfeirio defnyddwyr at ffynonellau allanol (e.e. gwybodaeth am dystiolaeth yn ymwneud ag ymyriadau atal trais; strategaethau'r llywodraeth a phartneriaid eraill).

*"Rydyn ni wrthi'n uwchraddio hynny ac yn gweithio ar ddangosfwrdd...er mwyn cyrraedd y sefyllfa lle y gallai sefydliadau ac asiantaethau eraill raeadru'r wybodaeth. Y dangosyddion y maen nhw'n edrych yn benodol arnynt yw'r rhai ar lefel ddienw i lywio eu polisi strategol a gweithredol, heb (i'r VPU) orfod anfon adroddiadau wythnosol neu fisol gydag 16 set ddata wahanol, sydd ddim yn ymarferol mewn gwirionedd."*¹¹

Blwch 6: Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel Cymru

Mae'r gydwledigaeth ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru yn un lle (Llywodraeth Cymru, 2017):

1. Mae pob cymuned yn gryf, yn ddiogel ac yn hyderus mewn modd sy'n darparu cyfle cyfartal a chyfiawnder troseddol, cydnerthedd a chynaliadwyedd ar gyfer pawb.
2. Mae gan y Llywodraeth ac asiantaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector gydgyfrifoldeb am gydweithio gyda'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a'r sector preifat i fynd i'r afael â gweithgarwch neu ymddygiad sy'n anghyfreithlon, yn wrthgymdeithasol, yn niweidiol i unigolion a'r gymdeithas ac i'r amgylchedd.
3. Bydd rhannu gwybodaeth a sicrhau yr ymyrrir yn gynnar gyda chymau gweithredu prydlon, cadarnhaol yn mynd i'r afael â materion lleol ac yn ymdrin â sefyllfaoedd lle mae pobl yn agored i niwed.

Bydd y weledigaeth hon yn cael ei gwireddu drwy weithgarwch amlasiantaeth cydweithredol ac integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chudd-wybodaeth; yn cael ei ategu gan sgiliau a gwybodaeth briodol; yn cael adnoddau mewn modd cynaliadwy ac yn briodol yn lleol; yn ennyn ymgysylltiad dinasyddion ac yn eu cynnwys; yn ataliol ac yn ymyrryd mor gynnar â phosibl; ac, yn canolbwyntio ar welliannau a manteision hirdymor.

6. Casgliad ac Argymhellion ar gyfer Trawsnewid

Dros yr ychydig ddegawdau diwethaf, mae Cymru wedi bod ar flaen y gad wrth ddatblygu dulliau amlasiantaeth o atal trais a throseddau. Mae Model Caerdydd (De Cymru), model WVSAS ac ymdrechion cenedlaethol a lleol i rannu data a chydweithio, yn darparu sylfaen gref ar gyfer y system gwyliadwriaeth trais. Mae ymgorffori'r WVSAS yn rhaglen waith y VPU yn galluogi parhau â blaenoriaethau partneriaid Cymru i gefnogi gwaith atal trais drwy ddatblygu system gwyliadwriaeth trais sy'n coladu, dadansoddi a rhannu data ar drais o sawl ffynhonnell ledled Cymru. Yn hollbwysig, mae dull y VPU yn datblygu y tu hwnt i fodelau sy'n bodoli eisoes, i ddarparu model Cymru Gyfan sy'n ceisio mynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais. Fodd bynnag, mae angen gwaith partneriaeth amlasiantaeth parhaus, ar lefelau cenedlaethol a lleol, er mwyn sicrhau y gellir ehangu'r system yn llawn ledled Cymru, darparu darlun mwy cyfannol, a'i hymgorffori ar draws y system gyfan, gan ddilyn dull yn seiliedig ar le ac wedi'i arwain gan le. Nodwyd bod codi ymwybyddiaeth o sut y gall nodau ac amcanion y VPU a'r WVSAS gefnogi blaenoriaethau llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol, a blaenoriaethau sefydliadau partner, yn gam allweddol i ennyn cefnogaeth partneriaid ar gyfer system Cymru Gyfan.¹⁴

Argymhellion:

- Dylai datblygu'r WVSAS barhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r VPU a'i phartneriaid, gan gynnwys ehangu i system Cymru gyfan gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar le ac wedi'i arwain gan le.
- Adnabod sut mae nodau ac amcanion yr WVSAS yn cyd-fynd â blaenoriaethau llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, a sefydliadau partner a chodi ymwybyddiaeth o hynny er mwyn ennyn cefnogaeth i system Cymru Gyfan.
- Gwellu datblygiad system gwyliadwriaeth trais Cymru gyfan drwy gamau gweithredu cydgysylltiedig a ddarperir drwy'r Rhaglen Diogelwch Cymunedol Genedlaethol.

Mae'r VPU wedi dechrau ehangu model WVSAS De Cymru i Gymru Gyfan, gan gynnwys data'r heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans sy'n cwmpasu Cymru gyfan, a data gwasanaethau cymunedol a gwirfoddol, ymhlith ffynonellau gwybodaeth eraill. Mae datblygu a chynhyrchu'r Adroddiadau Monitro Trais wedi rhoi cyfle i bartneriaid rannu eu data drwy'r system, ac wedi codi ymwybyddiaeth o'r ffynonellau data sydd ar gael a sut y gallant ddatblygu dealltwriaeth o drais ymhellach a llywio gweithgaredd atal. Nodwyd bod sicrhau bod y data'n cynrychioli Cymru gyfan, ac o ansawdd uchel, yn hanfodol i wella'r gwaith o atal trais. Ar hyn o bryd mae cynnwys data o'r holl fyrddau iechyd a ffynonellau data eraill sy'n canolbwyntio ar risgiau a ffactorau amddiffynnol yn cael eu harchwilio i'w cynnwys yn yr hyb VIP. Nod datblygu a chomisiynu'r Hyb VIP yw ymgorffori'r WVSAS ymhellach ar draws Cymru, gan helpu i oresgyn rhwystrau i rannu data, a pharhau i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar drais.

¹⁴ H.y. gan bartneriaid lleol yn seiliedig ar anghenion cymunedol a phrosesau partneriaethau.

Argymhellion:

- Rhoi blaenoriaeth i gynnwys data byrddau iechyd sy'n cwmpasu Cymru gyfan yn yr Hyb VIP.
- Parhau i gysylltu â phartneriaid VPU ledled Cymru i nodi ffynonellau data a allai wella gwyliadwriaeth trais, gan gynnwys deall ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol, a sefydlu prosesau rhannu data (gan gynnwys yn yr Hyb VIP a phrosesau rhannu data lleol eraill).
- Cysylltu ffynonellau/dangosyddion data â model rhesymeg y VPU (canlyniadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor).
- Adolygu ansawdd data yn rheolaidd ar draws darparwyr data, a gweithio gyda phartneriaid i wella prosesau casglu data er mwyn sicrhau y gall gwybodaeth gefnogi gwaith atal trais ar draws y system gyfan. Gall hyn gynnwys casglu data y tu hwnt i ofynion sefydliadol i adnabod grwpiau sydd mewn perygl neu i gynorthwyo dealltwriaeth o gyd-destun trais.
- Ehangu prosiect cysylltu/cipio-ailgipio data 2014 a weithredwyd ledled De Cymru (a oedd yn cysylltu ffynonellau data'r heddlu, adrannau damweiniau ac achosion brys a'r gwasanaeth ambiwlans) â Chymru gyfan (gan alluogi gwell dealltwriaeth o raddau a natur trais, a grwpiau sydd a chymunedau sydd mewn perygl).
- Parhau i ddatblygu'r Hyb VIP i gefnogi partneriaid VPU i gael mynediad at ddata amlasiantaeth a'u harchwilio yn seiliedig ar eu hanghenion lleol.

Mae'r gwerthusiad hwn yn dangos sut mae allbynnau'r WVSAS, gan gynnwys yr Adroddiadau Monitro Trais diweddar, yn hyrwyddo dull iechyd y cyhoedd amlasiantaeth o atal trais, gan gynorthwyo partneriaid i ddeall maint a natur y broblem, ynghyd â ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol. Mae'r Adroddiadau Monitro Trais yn cael eu croesawu gan bartneriaid VPU ac fe'u defnyddiwyd i lywio dulliau strategol o atal trais, ac maent yn darparu dealltwriaeth fwy cywir o drais ledled Cymru. Yn hollbwysig, mae'r adroddiadau wedi helpu i adnabod grwpiau cudd sydd mewn perygl o ddioddef trais, gan gynorthwyo partneriaid VPU i ddatblygu a thargedu ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth. At hynny, maent wedi sicrhau bod atal trais yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol drwy gydol y pandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae angen datblygu allbynnau'r WVSAS ymhellach er mwyn sicrhau y gall lywio gweithgaredd atal mewn cymunedau lleol, a diwallu anghenion amrywiol partneriaid VPU.

Argymhellion:

- Sicrhau bod dadansoddiadau data yn cael eu cyflwyno ar lefelau cenedlaethol a lleol (e.e. rhanbarthol, Partneriaeth Diogelwch Cymunedau), fel y gall data fod yn sail i ddulliau cymunedol lleol o atal trais.
- Ehangu allbynnau'r WVSAS i lywio strategaethau cenedlaethol a lleol a gweithgareddau atal, er enghraifft, drwy gynhyrchu adroddiadau thema ar faterion sy'n dod i'r amlwg.
- Sicrhau bod allbynnau'n cynnwys crynodeb o'r canfyddiadau a'r argymhellion allweddol ar gyfer gweithredu, ar lefelau lleol a chenedlaethol.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i lwyddiant yr WVSAS yn y dyfodol, ac mae'r VPU yn darparu llwyfan i barhau i wella defnyddioldeb y system gwyliadwriaeth trais mewn gweithgaredd atal ledled Cymru. Mae'r Adroddiadau Monitro Trais a gwaith ehangach y VPU wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o sefydliadau sy'n gweithio tuag at atal trais ledled Cymru, a'r rôl hanfodol sydd ganddynt mewn gwaith gwyliadwriaeth trais. Mae gan bartneriaid y VPU, yn enwedig ar lefelau rhanbarthol a lleol, rôl hanfodol yn y broses o sicrhau bod y system yn gallu diwallu anghenion y

gymuned a bod y system yn gallu cael ei defnyddio i lywio camau gweithredu lleol a bod hynny'n digwydd. Mae meithrin gallu dadansoddol ar lefelau rhanbarthol a lleol yn hanfodol.

Argymhellion:


- Parhau i godi ymwybyddiaeth o sut y mae y mae'r WVSAS yn cefnogi ac yn gallu cefnogi gweithgaredd atal trais ledled Cymru.
- Codi ymwybyddiaeth o rôl holl bartneriaid VPU wrth gynnal a datblygu'r system, drwy gyfrannu data, gwella ansawdd data a sicrhau'r defnydd o ddata mewn gweithgaredd atal trais lleol a chenedlaethol, a rhannu'r hyn a ddysgwyd am ddefnyddio data a'u heffeithiau.
- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod gan ardaloedd lleol (e.e. rhanbarthol, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol) a sefydliadau hyrwyddwr dynodedig a/neu grŵp atal trais a all gefnogi nod ac amcanion yr WVSAS (a chylch gwaith ehangach y VPU).
- Eiriol dros gryfhau capasiti rhanbarthol a lleol i alluogi dadansoddi a dehongli data yn lleol, a gweithgaredd atal trais yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Ystyried datblygu strategaeth ar gyfer datblygu'r WVSAS yn y dyfodol sy'n cynnwys dull cyflawni haenog:
 - Tîm craidd y VPU, e.e. datblygu a chynnal a chadw'r Hyb VIP a draws y system gyfan; adroddiadau ar themâu penodol; a gwaith monitro a chadw gwyliadwriaeth ar drais ledled Cymru.
 - Grwpiau atal trais lleol e.e. ehangu dull sy'n cael ei arwain gan le ac yn seiliedig ar le; dadansoddi data a chraffu ar ddata i lywio a bod yn sail i strategaethau lleol a gweithgaredd atal; a chefnogi gwelliannau yn ansawdd y data, a sut y cânt eu rhannu a'u defnyddio.

Mae dangos tystiolaeth o'r defnydd o'r WVSAS a'i heffaith yn hanfodol i ddatblygiad a chynaliadwyedd y system yn y dyfodol. Mae tystiolaeth o'r gwerthusiad gwreiddiol (Barton et al, 2016) yn awgrymu nad yw bob amser yn glir pwy sy'n cael mynediad at allbynnau'r WVSAS, neu a ydynt yn defnyddio'r data/allbynnau a sut y maent yn gwneud hynny.

Argymhellion:

- Adolygu'r broses o ledaenu allbwn yn rheolaidd, gan sicrhau bod partneriaid yn gallu cael mynediad at yr allbynnau/data a datblygu dealltwriaeth o'r defnydd o'r allbynnau i atal trais.
- Ehangu model gweithredu'r WVSAS i gynnwys adolygiad o ansawdd a defnydd data wrth atal trais, a rhannu gwybodaeth o'r fath rhwng partneriaid, gan gynnwys partneriaid lleol yn rhannu engbreffftiau o'u defnydd o ddata mewn gweithgaredd atal yn rheolaidd.
- Parhau i fonitro a gwerthuso prosesau datblygu'r WVSAS ledled Cymru, a chanlyniadau ac effeithiau'r system.

Ffigur 6: Model rhesymeg: WVSAS Cymru



(B) tymor byr; (C) tymor canolig; (H) tymor hir

7. Cyfeiriadau

Ahmed K et al (2020). *Evaluation of West Midlands Injury Surveillance System: Report*. Gorllewin Canolbarth Lloegr, Public Heath England.

Ariel B et al. (2013). Can routinely collected ambulance data about assaults contribute to reduction in community violence? *Emergency Medicine Journal*, 32:308-313.

Awdurdod Llundain Fwyaf (2020). DD2457 'Information Sharing to Tackle Violence' programme (online). Ar gael yn: <https://www.london.gov.uk/decisions/dd2457-information-sharing-tackle-violence-programme>. Fel ar 20/01/21.

Barton E et al (2016). *Developing a routine surveillance and analysis system for early intervention and prevention of violence: a multi-agency perspective. South Wales Model*. Iechyd Cyhoeddus Cymru/Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru.

Bellis MA et al (2012). Nighttime assaults: using a national emergency department monitoring system to predict occurrence, target prevention and plan services. *BMC Public Health*, 12, 746.

Benger J, Carter R (2008). Could inter-agency working reduce emergency department attendances due to alcohol consumption? *Emergency Medicine Journal*, 25 (6):331-334.

Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys (2017). *Guideline for information sharing to reduce community violence*. Ar gael o: [https://www.rcem.ac.uk/docs/RCEM%20Guidance/QEC%20Guideline%20Information%20sharing%20to%20reduce%20Community%20Violence%20\(Sept%202017\).pdf](https://www.rcem.ac.uk/docs/RCEM%20Guidance/QEC%20Guideline%20Information%20sharing%20to%20reduce%20Community%20Violence%20(Sept%202017).pdf) Fel ar 25/3/21.

Droste N et al (2014). Review article: emergency department data sharing to reduce alcohol-related violence: a systematic review of the feasibility and effectiveness of community-level interventions. *Emergency Medicine Australasia*, 26(4): 326-335.

Elkin M (2019). The nature of violent crime in England and Wales: year ending March 2018 (ar-lein). Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/thenatureofviolentcrimeinenglandandwales/yearendingmarch2018> Fel ar 20/1/21.

Faergemann C et al (2007). Trends in deliberate interpersonal violence in the Odense Municipality, Denmark 1991–2002. The Odense study on deliberate interpersonal violence. *Journal of Forensic and Legal Medicine*, 14: 20-26.

Florence C et al (2011). Effectiveness of anonymised information sharing and use in health service, police, and local government partnership for preventing violence related injury: experimental study and time series analysis. *BMJ*, 342:d3313.

Florence C et al (2014). An economic evaluation of anonymised information sharing in a partnership between health services, police and local government for preventing violence-related injury. *Injury Prevention*, 20: 108-114.

Forgan S. (2014). Hot Blocking. *US-China Law Review*, 11:749-762.

Gray BJ et al (2017). A shared data approach more accurately represents the rates and patterns of violence with injury assaults. *J Epidemiol Community Health*, 71:1218-24.

Janssen H et al, (2020). Asesiad cyflym o ailagor bywyd nos gan gyfyngu COVID-19 ac atal trais: Adroddiad llawn (ar-lein). Ar gael yn:

<https://phwwhooc.co.uk/wp-content/uploads/2021/03/Adroddiad-Llawn-Asesiad-cyflym-o-ailagor-bywyd-nos-gan-gyfyngu-COVID-19-ac-atal-trais.pdf> Fel ar 18/3/21.

Jones et al (2020). Costau Trais i'r System Gofal Iechyd yng Nghymru. Caerdydd / Lerpwl: VPU Cymru/Public Health Institute, LJMU.

Kendall T (2020). *A synthesis of evidence on the collection and use of administrative data on violence against women*. Efrog Newydd, UN Women.

Krug et al (2002). *World report on violence and health*. Genefa, Sefydliad Iechyd y Byd.

Llywodraeth Cymru (2017). Gweithio gyda'n Gilydd i greu Cymunedau mwy Diogel. Adolygiad gan Llywodraeth Cymru o drefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru (ar-lein) Caerdydd, Llywodraeth Cymru. Ar gael yn:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/gweithio-gydan-gilydd-i-greu-cymunedau-mwy-diogel.pdf> Fel ar 28/2/21.

Llywodraeth EM (2010). *The Coalition: our programme for government*. Llundain: Swyddfa'r Cabinet.

Maguire M, Nettleton H (2003). Reducing alcohol-related violence and disorder: an evaluation of the 'TASC' project (ar-lein). Astudiaeth Ymchwil y Swyddfa Gartref 265. Llundain, Cyfarwyddiaeth Ymchwil, Datblygu ac Ystadegau y Swyddfa Gartref.

[http://www.drugsandalcohol.ie/5555/1/Home_Office_Research_Study_265_Reducing_alcohol_related_violence.pdf#:~:text=The%20Tackling%20Alcohol-related%20Street%20Crime%20\(TASC\)%20project%20was,central%20Cardiff%20and%20Cardiff%20Bay.%20Its%20interventions%20included](http://www.drugsandalcohol.ie/5555/1/Home_Office_Research_Study_265_Reducing_alcohol_related_violence.pdf#:~:text=The%20Tackling%20Alcohol-related%20Street%20Crime%20(TASC)%20project%20was,central%20Cardiff%20and%20Cardiff%20Bay.%20Its%20interventions%20included) Fel ar 26/2/21.

Mercer Kollar et al (2019). Building capacity for injury prevention: a process evaluation of a replication of the Cardiff Violence Prevention Programme in the Southeastern USA. *Injury Prevention*, 0:1-8.

Newbury A et al (2020). Deall effaith COVID-19 ar drais ac ACE a brofir gan blant a phobl ifanc yng Nghymru (ar-lein) Caerdydd; Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar gael yn:

<https://www.violencepreventionwales.co.uk/cms-assets/research/Adroddiad-Interim-Deall-Effaith-COVID-19-ar-Drais-ac-ACE-a-Brofir-gan-Blant-a-Phobl-Ifanc-yng-Nghymru.pdf> Fel ar 26/2/21.

Quigg Z et al (2012). Data sharing for prevention: a case study in the development of a comprehensive emergency department injury surveillance system and its use in preventing violence and alcohol-related harms. *Injury Prevention*, 18: 315-320.

Quigg Z et al (2016). *Optimising the use of NHS intelligence in local violence prevention and measuring its impact on violence. Project research findings*. Lerpwl, Centre for Public Health, LJMU.

Quigg Z et al (2017). Violence-related ambulance call-outs in the North West of England: a cross-sectional analysis of nature, extent and relationships to temporal, celebratory and sporting events. *Emergency Medicine Journal*, 0:1-6.

Sefydliad Iechyd y Byd (2014). *Global status report on violence prevention 2014*. Genefa, Sefydliad Iechyd y Byd.

Senedd y DU, (2019). Bil Trais Difrifol 2019-20 (ar-lein). Ar gael yn: <https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-8685/> Fel ar 23/2/21.

Sivarajasingam V et al (2016). Trends in violence in England and Wales 2010–2014. *Journal of Epidemiology and Community Health*, 70:616-621.

Snowdon L et al. (2020). Addressing the “shadow pandemic” through a public health approach to violence prevention. *Journal of Community Safety and Well-Being*, 5(2):60-65.

StatsCymru (2021). Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwlad y DU (ar-lein). Ar gael yn: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/nationallevelpopulationestimates-by-year-age-ukcountry> Fel ar 15/1/21.

Sutherland I et al (2002). Recording of community violence by medical and police services. *Injury Prevention*, 8:246-247.

Swyddfa Gartref (2018). *Serious Violence Strategy*. Llundain, Llywodraeth EM.

Swyddfa Gartref (2019). Funding for Violence Reduction Units announced (online). Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/news/funding-for-violence-reduction-units-announced>

Taylor A et al (2016). Using ambulance data to reduce community violence: critical literature review. *European Journal of Emergency Medicine*, 23:248–252

Teff M. (2012). *Information sharing to tackle violence. Guidance for community safety partnerships on engaging with the NHS*. Llundain: Yr Adran Iechyd.

Uned Ddadansoddol y Gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Leol a Phartneriaethau Gofal (SCLGCPDAC) (2015). Information sharing to tackle violence: Audit of progress. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/478613/Information_sharing_audit.pdf. Fel ar 26/2/21.

Uned Atal Trais (VPU) 2020a. *Ymateb Uned Atal Trais Cymru i'r Coronafeirws (Covid-19)*. Caerdydd, Uned Atal Trais Cymru.

Uned Atal Trais (VPU) 2020b. Serious youth violence in South Wales. Strategic needs assessment highlight report. Caerdydd, Uned Atal Trais Cymru.

Uned Atal Trais (VPU) 2021. *Wales Violence Prevention Unit Partnerships for Prevention Annual report*. Caerdydd, Uned Atal Trais Cymru.

VRU Dyffryn Tafwys (2021a). Dangosfwrdd Trais Difrifol (ar-lein). Ar gael yn: <https://www.tvvru.co.uk/project/op-rasure/> Fel ar 23/2/21.

VRU Thames Valley (2021b). Operation RASURE – Tackling Serious Violence and Knife Enabled Crime (online). Ar gael yn: <https://www.tvvru.co.uk/project/op-rasure/> Fel ar 23/2/21.

8. Atodiadau

8.1 Dulliau gwerthuso

Arolwg ar-lein yn ymchwilio i ymwybyddiaeth, canfyddiadau a defnydd partneriaid y VPU o'r WVSAS, gan gynnwys y data sydd ar gael a'r dadansoddiadau/allbynnau a gynhyrchwyd, gyda ffocws penodol ar yr Adroddiadau Monitro Trais. Dosbarthwyd dolen i'r arolwg ar-lein a'r daflen wybodaeth i gyfranogwyr gan y VPU (gan weithredu fel porthor i'r astudiaeth) drwy e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol i bartneriaid a grwpiau'r VPU sy'n cael mynediad i'r Adroddiadau Monitro Trais ar hyn o bryd. Gofynnwyd i bartneriaid a oedd wedi defnyddio'r WVSAS a ellid cysylltu â nhw i gael rhagor o fanylion, a/neu a hoffent gymryd rhan mewn cyfweiliad. Mae 50 o bartneriaid VPU yn cwblhau'r arolwg (gweler Tabl a, isod). Dadansoddwyd y data drwy SPSS.

Cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig dros y ffôn gydag aelodau tîm VPU (n=2) a phartneriaid (n=5) yn ymchwilio i'w barn ar yr WVSAS, ac os a sut y maent wedi defnyddio'r WVSAS i atal trais. Cafodd detholiad o bartneriaid y VPU a oedd wedi rhoi eu caniatâd i gymryd rhan mewn cyfweiliad (drwy'r arolwg) eu recriwtio i gyfweiliad, i ychwanegu cyd-destun at ymatebion yr arolwg.

Adolygiad o ddogfennau (n=10) sy'n berthnasol i'r WVSAS ers ei sefydlu (2014), Adroddiadau Monitro Trais (n=17) a deunyddiau cyfathrebu'r VPU (e.e. negseuon e-bost) ynghylch yr adroddiadau.

Tabl a: Nodweddion sampl, arolwg partneriaid

		n	%
Sector	Academia	2	4.0
	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol	1	2.0
	Bwrdd Iechyd / Ysbyty	5	10.0
	Gwasnaeth Carchardai EM - Prawf	5	10.0
	Llywodraeth Leol	5	10.0
	Arall	9	18.0
	Heddlu / CHTh	14	28.0
	Sefydliadau'r Trydydd Sector	4	8.0
	Llywodraeth Cymru	3	6.0
	Gwasanaethau Troseddwy'r Ifanc	2	4.0
Ardal awdurdod lleol (AALI)	AALLau Cymru i gyd	17	34.0
	Caerdydd	13	26.0
	Bro Morgannwg	7	14.0
	Pen-y-bont ar Ogwr	9	18.0
	Abertawe	7	14.0
	Merthyr Tudful	9	18.0
	Castell-nedd Port Talbot	8	16.0
	Rhondda Cynon Taf	10	20.0
	Casnewydd	5	10.0
	Torfaen	5	10.0
	Blaenau Gwent	5	10.0
	Caerffili	5	10.0
	Sir Fynwy	5	10.0
	AALLau eraill yng Nghymru: Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Powys, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Wrecsam	<5	4-6
	Y tu allan i Gymru	4	8.0

8.2 Trosolwg o ffynonellau data’r WVSAS

Tabl 1: Trosolwg o'r data sydd wedi'i gynnwys yn WVSAS VPU Cymru - ffynonellau data craidd

Darparwr data		Math(au) o drais*															Poblogaeth	Amllder rhannu data	Meysydd data	Fformat y data	Ansawdd y data
		VAP	DV	SV	S&H	OV	HBV	CANE	ASB	ACEs & VG	OC/DS &SV	MS	HC	NTE &ARV	EA	VAEW					
Pedwar Cymru [Dyfed Powys, Gwent, Cymru, De Cymru]	Heddlu Gogledd	✓	✓	✓	✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓	Lleol (Cymru Gyfan)		Dyddiad; amser; lleoliad; demograffeg a chyfeiriad y dioddefwr; demograffeg a chyfeiriad y troseddwr; perthynas y cyflawnwr a'r dioddefwr; trosedd; arf Dyddiad; amser; lleoliad; math o ymosodiad; demograffeg cleifion; arf; nifer y cyflawnwyr; perthynas y dioddefwr a'r cyflawnwr; alcohol/cyffuriau'n gysylltiedig â'r digwyddiad; math o anaf; canlyniad; dull cyrraedd; hysbyswyd yr heddlu		Ddim ar gael i'w werthuso
Data Bwrdd Iechyd De Cymru (damweiniau ac achosion brys)		✓	✓								✓			✓			Lleol (De Cymru)		Dyddiad; amser; lleoliad; demograffeg a chyfeiriad y dioddefwr; demograffeg a chyfeiriad y troseddwr; perthynas y cyflawnwr a'r dioddefwr; alcohol/cyffuriau'n gysylltiedig â'r digwyddiad; math o anaf; canlyniad; dull cyrraedd; hysbyswyd yr heddlu		Mae'r newidynnau data a gesglir yn amrywio yn ôl BILL. N=75 o'r holl newidynnau data ar draws yr holl BILL >90% wedi'u cwblhau; n=8 newidyn 80-89.99% wedi'i gwblhau; n=11 newidyn <80% yn gyflawn ¹⁵ . Data lleoliad ymosodiadau (testun) oedd â'r gyfradd gwblhau isaf. Ar draws y BILL barnwyd nad oedd modd defnyddio hanner y data testun lleoliad ymosodiadau.
Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru		✓															Lleol (Cymru Gyfan)		Dyddiad; amser; lleoliad; demograffeg cleifion		Ddim ar gael i'w werthuso

Noder. *VAP = trais yn erbyn person; DV = trais domestig; SV = trais rhywiol; S&H = stelcio ac aflonyddu; OV = trais ar-lein; HBV = trais ar sail anrhydedd; CANE = cam-drin, esgeuluso a chamfanteisio ar blant; ASB = ymddygiad gwrthgymdeithasol; ACEs & VG = profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a grwpiau bregus; OC/DS&SV = troseddau cyfundrefnol/cyflenwi cyffuriau a thrais difrifol; MS = caethwasiaeth fodern; HC = troseddau casineb; NTE&ARV = trais yn gysylltiedig ag economi'r nos ac alcohol; EA = cam-drin yr henoed; VAEW = trais yn erbyn gweithwyr y gwasanaethau brys. BILL = Bwrdd Iechyd Lleol

Allwedd:
Amllder rhannu data: =wythnosol; =misol; =bob yn ail fis
Fformat y data: =data lefel unigol; =data wedi'i goladu

¹⁵ Yn seiliedig ar yr archwiliadau data mwyaf diweddar ar gyfer pob bwrdd iechyd lleol (Medi-Rhagfyr 2016 neu Medi-Rhagfyr 2020).

Tabl 2: Trosolwg o'r data sydd wedi'i gynnwys yn WVSAS VPU Cymru - ffynonellau data ychwanegol

Darparwr data	Math(au) o drais*																Poblogaeth	Amllder rhannu data	Fformat y data
	VAP	DV	SV	S&H	OV	HBV	CANE	ASB	ACEs & VG	OC/DS &SV	MS	HC	NTE &ARV	EA	VAEW				
ROCU Tarian (Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol)							✓				✓						Cymru Gyfan		
Uned Eithafiaeth a Gwrth-derfysgaeth Cymru (WECTU)										✓							Cymru Gyfan	Chwarterol	
Tîm atal trais y GIG	✓																Lleol (De Cymru)		
Cymorth i Ferched Cymru [llinell gymorth Byw Heb OFn]		✓															Cymru Gyfan		
Taclo'r Tacle										✓							Cymru Gyfan		
Llinell Gymorth Adrodd am Gynnwys Niweidiol					✓												Y DU		
Llinell Gymorth Pornograffi Dial y DU					✓												Y DU		
Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein Gweithwyr Proffesiynol					✓												Y DU		
Childine (llinell gymorth i oedolion a gweithwyr proffesiynol)							✓										Y DU		
NSPCC (pryderon oedolion)							✓										Y DU		
Hourglass Cymru (elusen genedlaethol y DU)															✓		Y DU		
Papyrus	✓**																Cymru Gyfan	Chwarterol	
Cymorth i Ddiodefswyr												✓					Lleol (Cymru Gyfan)	Chwarterol	
Karma Nirvana						✓											Cymru	Chwarterol	
NHS Digital England						✓											Lloegr		
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder						✓											Y DU	Chwarterol	

Noder. *VAP = trais yn erbyn person/**trais hunangyfeiriedig; DV = trais domestig; SV = trais rhywiol; S&H = stelcio ac aflonyddu; OV = trais ar-lein; HBV = trais ar sail anrhydedd; CANE = cam-drin, esgeuluso a chamfanteisio ar blant; ASB = ymddygiad gwrthgymdeithasol; ACEs & VG = profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a grwpiau bregus; OC/DS&SV = troseddau cyfundrefnol/cyflenwi cyffuriau a thrais difrifol; MS = caethwasiaeth fodern; HC = troseddau casineb; NTE&ARV = trais yn gysylltiedig ag economi'r nos ac alcohol; EA = cam-drin yr henoed; VAEW = trais yn erbyn gweithwyr y gwasanaethau brys.

Allwedd:

Amllder rhannu data: =wythnosol; =misol; =bob yn ail fis

Fformat y data: =data lefel unigol; =data wedi'i goladu

Wales Violence Prevention Unit, Market Chambers,
5-2 St Mary's Street, Cardiff, CF10 1AT
PHW.ViolencePreventionUnit@wales.nhs.uk | 02920 338450



Uned Atal Trais
Violence Prevention Unit